


CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2005

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 3 Mawrth, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig i'r papurau bro i gyd drwy Gymru. Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £30 i'r enillydd, yn ogystal â £150 i'r papur bro fydd yn ysgogi'r ymateb gorau. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd.



Cofiwch; un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

AR DRAWS

- 1 Gair arall am lyfrau (8)
- 5 Enw cyntaf awdures Pwytyn ar Goll (4)
- 8 Gweler 18 (5)
- 9 Gweler 7 i lawr (2, 4)
- 12 - - - - - *Rafins*, nofel gyfoes gan Dafydd Meirion (5)
- 14 Awdur a fu farw dair blynedd cyn cyhoeddi ei nofel, *Lôn Gweunydd* (4, 3, 8)
- 15 Cyfenw lola, awdures *Dal dy Dir* (4)
- 16 Gweler 15 i lawr (5)
- 17 Cyflwr jam Angharad Tomos yng Nghyfes Rwdlan (4)
- 18 ac 8 (ar draws)
Yn y nofel hon o waith Mihangel Morgan, cawn gyfarfod â Miss Silvester, y fenyw sydd â choesau broga a chroen gwyrdd (9, 6, 5)
- 22 Ceir hanes y cwm hwn mewn cyfrol o waith Einion Thomas a gyhoeddwyd ym 1997 (5)
- 25 Addoldai cyfrol Anthony Jones (6)
- 26 Cyfres y bobl lawr (5)
- 27 Enw cyntaf awdur *National Winner* ac amryw o lyfrau Eingl-Gymreig eraill (4)
- 28 Cyfenw *Y Dyn 7 Hun* (8)

I LAWR

- 1 Gweithred hanfodol cyn argraffu llyfr (6)

- 2 *Papur* - - - - - papur bro yr Wyddgrug a'r pentrefi cyfagos (4)
- 3 Teimlad Twm Morys tuag at ei het (3)
- 4 Cyfrol i blant am ymweliad Siôn Corn, addasiad Myrddin ap Dafydd (2, 6, 7)
- 6 *La Peste Noire* yw teitl fersiwn Ffrangeg y nofel hon o waith Wiliam Owen Roberts (1, 3)
- 7 (i lawr) a 9 (ar draws)
Nofel arbrolol i oedolion gan Aled Islwyn (2, 3, 3, 2, 4)
- 10 Enw cyntaf awdur y gyfrol *Bro Conwy* a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch yn y flwyddyn 2000 (4)
- 11 Hunangofiant David Meredith, - - - - - *fase'n meddwl?* (3)
- 13 *Talu'r* - - - - - gan Arwel Vittle, nofel a leolwyd yng Nghymru 2082 (4)
- 15 (i lawr) ac 16 (ar draws)
Cyfrol ddoriol gan Glan Davies (4, 4, 5)
- 17 Nofel gan Jane Edwards, - - - - - ym y Gwely (4)
- 19 Mae hon a'i gŵr Andy newydd gyhoeddi eu hunangofiant (4)
- 20 Enw canol awdures *Y Graith a'r Wsg Sïdan* (3)
- 21 Cyfrol yng Nghyfes Beirdd yr Uchelwyr, *Gwaith* - - - - - *Offeiriad* (6)
- 23 *Blas* - - - - - llyfr coginio gan Ferched y Wawr, Bro Tryweryn (1, 3)
- 24 *Tael* - - - - - llyfr i blant gan Elgan Philip Davies (4)
- 26 *Dyddiau* - - - - - nofel gan Gwen Redvers Jones yng Nghyfes yr Arddgau (3)



Anfonwch y croesair at:
Croesair Papur Bro,
Cyngor Llyfrau Cymru,
Castell Brychan,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 2JB,
erbyn 15 Ebrill 2005.
Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

ENW	
CYFEIRIAD	
ENW PAPUR BRO	

Y LLOFFWR

Gall chwilio gwefan
www.gwales.com
eich helpu
gyda'r atebion



ATEBION AC ENILLYDD CROESAIR IONAWR/CHWEFROR: Gethin Williams, Hemel Hempstead, Lloegr! Tocyn llyfr £5 ar ei ffordd.
Ar Draws: 5. Ustus; 6. Lemwn; 8. Odyn; 9. Len; 10. Nest; 11. Aberfan; 13. Gwenu; 16. Pwytyn; 18. Gwynfor; 21. Brad; 23. Dai; 24. Iago; 25. Siwan; 26. Osian
I Lawr: 1. Stên; 2. Iselhau; 3. Blino; 4. Emyr; 5. Undeb; 7. Noson; 12. Ron; 14. Wyn; 15. Cwmifor; 17. Wyres; 19. Organ; 20. O dan y; 22. Dewi; 24. Iris

****** Diolch i bawb a ymatebodd - dros 25 ohonoch! Anogwn bawb yn gryf i ymateb i'r croesair y mis hwn gan fod arian i chi ac i'r Lloffwr i'w ennill!*

Y LLOFFWR

DATHLWCH
DDYDD GŴYL DEWI



yloffwr@papurbro.org

RHIF 262



PAPUR BRO CYLCH DINEFWR

MAWRTH 2005

75c

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL

Llongyfarchiadau i Hayley Williams (isod dde) ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Gyfun Pantycelyn yn ddiweddar. Hefyd i Owain Griffiths (isod chwith) a enillodd Wobr Goffa William Williams Pantycelyn, a Jane Davies (gwaelod chwith) a gipiodd Dlws y Dysgwyr (mwy ar dudalen 3).



Os ydych wedi prynu'ch copi o'r Lloffwr ac nad oes beiro yma cysylltwch â'r Prosiect Papurau Bro ar (01558) 825336

**BEIRO AM DDIM I HOLL DDARLLENWYR Y LLOFFWR
I DDATHLU DIWRNOD EIN NAWDDSANT
Drwy law a dan nawdd y Prosiect Papurau Bro**

~ GOLYGYDDOL ~

Â ninnau'n dathlu diwrnod ein nawddsant Dewi, mae'r ymgais i geisio cael 1 Mawrth yn ddiwrnod Gŵyl swyddogol yn parhau. Mae'n siŵr y byddai pawb yn croesawu diwrnod ychwanegol o wyliau, ond mae yna bwynt pwysicach yma, sef cydnabod yn swyddogol ddiwrnod arbennig i Gymru i gael cofio ein nawddsant fel y gwneir mewn nifer o wledydd eraill. Pam, unwaith eto, bod yr awdurdodau mor gyndyn i gydnabod rhywbeth Cymreig?

Ar fater arall, daeth y ddeddf i atal hela yn ei ffurf arferol i rym yn ddiweddar, a beth bynnag yw barn unigolion ar y pwnc ei hun, bydd hyn yn ergyd sylweddol i nifer fawr o drigolion cefn gwlad Cymru. Beth fydd yn cael ei atal nesaf? Saethu, pysgota, neu'r diweddaraf y clywyd sôn amdano yw gwahardd cerbydau 4x4!

Ar bwynt mwy cadarnhaol, braf yw cael nodi bod sefyllfa'r Lloffwr yn edrych yn well nag y bu ers rhai blyneddodedd. Yn dilyn cyfarfod blyneddol llwyddiannus diweddar, penodwyd nifer o swyddogion newydd, trafodwyd amryw ffyrdd o wella'r papur, yn cynnwys sefydlu Clwb Cefnogwyr (manylion pellach ar dudalen 11), a chafwyd adroddiad bod y sefyllfa ariannol yn gwella. Un elfen fydd y Lloffwr yn ceisio ei datblygu yw sicrhau bod gohebydd neu gyswllt i bob pentref yn y fro, a byddem yn falch o glywed gan unrhyw un a fedrai helpu yn hyn o beth. Mae gennym dîm brwdfrydig eisoes ond mae angen mwy o gysylltiad â rhai ardaloedd. Diolch am bob cefnogaeth i'r Lloffwr a mwynhewch ddathlu dydd Gŵyl Dewi.

Owain a Cerys Gruffydd

~ Y GOLOFN GREFYDDOL ~

Amser

"Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef". Adnod agoriadol Llyfr y Pregethwr. Sut ydych chi'n ufuddhau i'r cloc larwm? Neu i unrhyw declyn sy'n dweud fod yr amser wedi dod i wneud y peth a'r peth. Ond felna mae, mae amser yn elfen hollol-lywodraethol ym mywyd y mwyafrif ohonom. Rydw i fel chithe mae'n siŵr, fel y rhan fwyaf ohonom ni, wedi cael ein dal gan gloc yn gwrthod gweithio'n iawn – rhywbeth o'i le arno. Neu falle, gyda'r taclau batri 'ma, y batri'n methu ganol nos, a'r cloc yn tewi, a dyna hi'n gawl mawr bore drannoeth.

Roedd hyd yn oed y Salmydd yn ymwybodol o bwysigrwydd amser: "Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau fel y dysgom ein calon i ddoethineb" (Salm 90). Cyfri'n dyddiau, neu ddefnyddio'r oriau gorau gallwn ni, ac mae hynny'n ddisgyblaeth bwysig ynddi ei hun. Dyw'r dyn doeth byth yn brysio nac yn oedi. Mae'n defnyddio'r amser sydd ganddo yn ddoeth. Mae defnyddio'r amser sydd gyda ni yn ddoeth yn grefft on'd yw hi? Hyn a hyn o amser sydd gyda ni i gyflawni pob peth yn ein bywyd. R'y'n ni gyd yn cael talp o amser, ac mae gyda ni ein cyfrifoldeb sut i'w ddefnyddio.

Ac yr ydym ni, os yn honni dilyn Iesu, i wneud daioni, i garu, i geisio cyfiawnder, i fod yn dosturiol, i wneuthur tangnefedd. Ac i bob un ohonom ni, ma'na ddigonedd o amser ar gyfer y cyfan hyn. Gwnewch y defnydd gorau o'r amser gewch chi'n rhodd gan Dduw, nid er mwyn dyrchafu eich hunan, ond er mwyn i chi allu cyflawni rhywbeth teilwng yn enw'r Efengyl. PETH PRIN YW AMSER. Un pennill o emyn Nantlais (rhif 71 – Caneuon Ffydd) i gloi ein myfyrdod.

Yn dy law y mae f'amserau,
oriau'r bore a'r prynhawn,
Ti sy'n rhoddi y tymhorau,
amser hau a chasglu'r grawn;
gad im dreulio
oriau'r flwyddyn yn dy waith.

Parch Lynn Evans, Manordeilo

~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

Cadeirydd

Mererid Vaughan Jones
3 Llys Pencrug, Llandeilo
☎ (01558) 823839

Uwch Olygydd

J. Mansel Charles
Sarn Gelli
Llanegwad, Nantgaredig
Caerfyrddin, SA32 7NL
☎ (01558) 668823
☎ (07970) 031888
✉ yloffwr@papurbro.org

Ysgrifennydd

Rhian Morgan
☎ (01550) 777107

Trysorydd

Owain Siôn Gruffydd
☎ (01558) 825336

Swyddog Derbyn Taliadau

Fiona Walters
Banc Barclays, Llandeilo

Swyddog Hysbysebion

Wyn Williams
☎ (01550) 777834

Swyddog Gwerthiant

Elfyn Davies
☎ (01558) 650507

Swyddog Tanysgrifio

Eleri Jones
☎ (01558) 822353

Swyddog Clwb Cefnogwyr

Peter Harries
☎ (01558) 823075

Teipio a Chysodi

Menter Bro Dinefwr

Argraffu

Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

Prawfddarllen

Gwenda Rees, Llandeilo

Golygyddion y Mis - 2005

Ionawr/Chwefror
J. Mansel Charles
Mawrth
Owain & Cerys Gruffydd

Ebrill

Elin Bishop

Mai

Len Richards

Mehfin

Christine Jones &
Mererid Vaughan Jones

Gorffennaf/Awst

Glenys Davies

Medi

T.M.Thomas

Hydref

Eleri Davies

Tachwedd

Lynwen Davies

Rhagfyr

Gwenda Rees

Cyfranwyr Misol

Y Golofn Grefyddol

Parch Lynn Evans

Tudalen y Fenter

Owain Siôn Gruffydd

Hwyl yn yr Ardd

Hywel Jones

Llecyn Llên

T.M.Thomas

Colofn Chwaraeon

David Dyer

Tudalen y Plant

Iona Llŷr

Croesair

Handel Jones (Agrestis)

Ffotograffydd

Gareth Vaughan Jones

Prif Ddosbarthwyr

Gwenlais Price

☎ (01550) 720114

Glyn a Rowena Davies

☎ (01558) 823340

Rhian Morgan

☎ (01550) 777107

SWYDDOGION PROSIECT PAPURAU BRO

☎ (01558) 825336

Cerys Gruffydd, Rheolwr

Aled Vaughan, Golygydd Hamdden ac Anabledd

Heledd ap Gwynfor, Golygydd Merched ac Ieuencid

Annwen Jones, Swyddog Cynorthwyl

Alison Gibbard, Swyddog Marchnata



Mansel Charles (Y Lloffwr), Cadeirydd
Marina Davies (Y Garthen), Is-gadeirydd



DYDDIAD CAU

Rhaid i ddeunydd Lloffwr mis Ebrill
fod yn nwylo'r Uwch Olygydd erbyn 20 Mawrth
RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG
Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl

yloffwr@papurbro.org

Nid yw'r Lloffwr o reidrwydd yn cytuno â'r fama adlewyrchir ym mhob un o'r eithyglau'r papur

~ TUDALEN Y PLANT ~

Y Gragen
Llandeilo

Annwyl blant os


Rwy'n falch i ddweud fy mod yn teimlo'n well erbyn hyn ac mae cyfnod yr Eisteddfodau ar fin cychwyn. Beth fydd hi eleni? Canu, dawnsio neu lefaru? Mi fydda i yn cystadlu yn y dawnsio disgo unigol i falwod eleni eto. Mae mam yn gwinio gwisg llachar, ddisglair i mi. Pob hwyl gyda'r cystadlu a Gŵyl Ddewi hapus i chi.



DYMA CEN
CENHINEN!

Allwch chi ateb y
cwestiynau?

Maer atebion i gyd
yn dechrau gyda
'CEN'



(Rhowch bip yng 'Ngeiriadur Gomer os
ydych yn methu ateb y cwestiynau)

1. Enw prif gymeriad 'Porc Peis Bach
2. Babi'r blaidd ar llew
3. Cartref i'r ci
4. Gair arall am cesair
5. Yn anhapus fod gan rywun rywbeth gwell na chi
6. Uned o fesur
7. Gwlad ar bobl syn byw ynddi
8. Y croen caled ar groen neidr neu bysgodyn

1. Cenedl Parri; 2. Cenu; 3. Cenei;
4. Ceniys; 5. Centigenus; 6. Centimedr;
7. Cenedl; 8. Cen

ATEBION

EDRYCHWCH AM Y GEIRIAU YN Y TABL

C	O	S	N	I	W	CH	C	R	P
D	A	FF	O	D	I	L	Y	D	W
E	C	W	N	A	E	T	N	A	D
W	D	A	L	TH	F	G	T	W	I
I	R	P	N	L	E	NG	A	N	N
S	A	RH	W	U	O	I	F	S	R
A	I	C	Y	M	R	U	S	I	E
N	G	I	R	E	N	A	B	O	I
T	M	A	W	R	TH	F	Y	O	S

Daffodil

Cawl

Pwdin Reis

Dewi Sant

Mawrth

Cyntaf

Non

Dathlu

Cymru


Dawnsio

Canu

Draig

Baner

LLIWIWCH Y CENNIN PEDR



Enillydd cystadleuaeth lliwio mis diwethaf oedd:

Nia Mererid, Tŷ Isaf, Salem

Llongyfarchiadau - da iawn ti!

Anfonwch eich cynigion y mis hwn eto i:

Y Gilfach, Heol Latimer, Llandeilo
erbyn 20 Mawrth 2004

BYDD GWOBR ETO I'R UN GORAU

~ HYN A'R LLALL ~

CROESO CYNNES I'R BYD GAN Y BRIFDDINAS

Daeth dros 200 o bobl ynghyd yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd ar gyfer noson o ddathlu ac o drafod yn y brifddinas yn ddiweddar. Soniodd y cyflwynydd Angharad Mair a'r newyddiadurwr Guto Harri am eu gobeithion a'u dymuniadau ar gyfer y papur dyddiol cyntaf yn yr iaith Gymraeg - Y BYD - sydd yn debyg o gael ei lansio ymhen y flwyddyn.

Bwriad y digwyddiad oedd i siaradwyr Cymraeg Caerdydd gael cyfle i ddarganfod mwy am gefndir y papur newydd, ac yn fwy pwysig, i gefnogi'r fenter hanesyddol hon. Hefyd ar gael yn ystod y noson oedd aelodau o fwrdd Y Byd a nifer o fuddsoddwyr a chefnogwyr eraill.

Dywedodd Ned Thomas, Cadeirydd Dyddiol Cyf, "Bydd sicrhau cefnogaeth dinas Caerdydd yn bwysig iawn o ran llwyddiant Y Byd, ac felly roedd yn galonogol dros ben cael ymateb mor bositif i'r cyflwyniad gan ffrindiau hen a newydd ar y noson.

"Roedd Canolfan y Mileniwm yn ddewis naturiol ar gyfer y noson, gan fod yr adeilad ei hun yn ddatganiad positif o'n hunaniaeth ni fel Cymry, ac yn dangos y math o beth y gallwn ei gyflawni drwy gredu yn ein gallu ein hunain. Credaf y bydd Y Byd hefyd yn llwyddiant ac yn ddatganiad positif i Gymru, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein cefnogi yn ein hymgyrch hyd yn hyn."

"Drws nesaf i Ganolfan y Mileniwm, gwelwn adeilad newydd y Cynulliad yn codi. Croesawodd aelodau o bob plaid ddyfodiad papur dyddiol Cymraeg, ac ar y noson darllenwyd neges arbennig gan Brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan yn dymuno'r gorau ar gyfer digwyddiad llwyddiannus."

Roedd Dr Gwynfor Evans, yntau yn un o fuddsoddwyr y papur, wedi anfon neges arbennig o gefnogaeth: "Rwy'n dymuno'n dda iawn i'r Byd, y papur newydd dyddiol Cymraeg. Bydd yn llanw bwlch mawr ym mywyd y genedl, ac yn cryfhau ei hunan-barch. Dyma fenter sy'n haeddu cefnogaeth lawn pob un ohonom. Daliwch ati yn y gwaith o ddod a'r Byd i Gymru, a Chymru i'r byd."

Y BEIBL MEWN PRINT BRAS

(Argraffiad Diwygiedig)

Ers i ni fel Cyd Bwyllgor gyhoeddi argraffiad diwygiedig o'r Beibl Cymraeg Newydd adeg Gŵyl Ddewi y llynedd, bu nifer fawr yn holi pa bryd y byddai argraffiad print bras ar gael. Mae'n dda gennyf roi gwybod i holl ddarllenwyr Y Lloffwr y bydd yr argraffiad print bras ar gael erbyn Gu'yl Dewi eleni yn eich siop lyfrau leol am £35.00. Mae'n gyfrol addas i'r pulpud ond hoffwn bwysleisio bod y gyfrol yn un hardd a hylaw sydd hefyd yn addas iawn i'r rhieni ohonoch sy'n dymuno cael Beibl gyda phrint brasach i'w ddarllen gartref. Cynlluniau eraill sydd ar y gweill yn ystod 2005 yw Testament Newydd ar dapiau i chi wrando ar y Gair, argraffiad diwygiedig o'r Apocrypha, a Thestament Newydd dwyieithog. Cewch glywed mwy am y rheini yn ystod yr haf.



COED DULAIS

Coed o bob math ar gael

☎(01558) 668409

Hau ar y sychin.
Plannu ar y gwlypin

Trowch syniadau gwych yn llwyddiant personol. Gall unrhywun wneud hynny - o fewn cwmnïoedd mawr a bach. Gall ddyfeisio helpu pob gweithgaredd busnes i fod yn fwy llwyddiannus - pobl, cynnyrch, prosesau, marchnadleoedd a marchnata. Gall y syniadau symlaf gael dylanwad mawr.

Dechreuwch ddyfeisio o fewn eich busnes heddiw.

Ffoniwch: 08456 00 88 11neu ewch i: www.wda.co.uk/arloesingweithio**Arloesi'n Gweithio**
Trowch syniadau yn llwyddiant i chi

Eisteddfod

GENEDLAETHOL CYMRU

Beth am ddechrau drwy gystadlu yng
Nghystadleuaeth Dyfeisio**Eisteddfod Genedlaethol Cymru Eryri a'r Cyffiniau
2005**Mae eisiau dyfais yn ymwneud ag aer yn symud. Efallai rhywbeth
ym maes hwylio, barcudiaid, egni gwynt, neu addurn yn defnyddio
gwynt.

Cyfanswm gwobrau - £1750

Grant i'r 4 tîm fydd yn ymddangos yn yr Eisteddfod

Manylion angenrheidiol:

ar wefan yr Eisteddfod - www.eisteddfod.org.ukneu gan: Guto Roberts 01443 228196 guto@eisteddfod.org.uk

Dyddiad cau - Ebrill 18, 2005 Cystadlu ddydd Mawrth Awst 2

Gwyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod 2005

Gwyddoniaeth Bwyd
Byd Einstein
CystadlaethauDysgu am yr Amgylchedd
Technoleg Hwyllo
Sioeau
A llawer mwy

DIOLCH AM GEFNOGAETH

☎(029) 2087 8000

www.bwrdd-yr-iaith.org.ukBWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

ENILLYDD CADAIR EISTEDDFOD YSGOL GYFUN PANTYCELYN 2005

Llongyfarchiadau gwresog i **Hayley Williams** o Fferm Dolaucothi, Pumsaint a enillodd y gadair yn Eisteddfod Ysgol Gyfun Pantycelyn yn ddiweddar am ysgrifennu stori fer ac araith yn lleisio barn. Mae Hayley ym mlwyddyn 12 yn astudio Daeryddiaeth, Ffiseg, Cemeg a Bioleg, a daeth i'r brig fel aelod o dŷ Prichard dan y ffugenw *Y Dylluan*. Yn y llun isod gwelir (o'r chwith) Mr Hywel Pugh (Pennaeth), Lowri Morgan (trydydd wobwr), Hayley Williams (enillydd), Mared Tomos (ail wobwr) a Cerys Gruffydd (beirniad y gystadleuaeth). Derbyniwyd gwaith o safon uchel iawn a gwelir y stori fer fuddugol isod.



“LLYGAD AM LYGAD, A DANT AM DDANT”

Eisteddodd hi wrth droed y gwely yn syllu allan drwy'r ffenestr. Tywalltodd y glaw o'r cymylau llwyd yn ddibaid fel y dagrau trist o'i llygaid. Crynai ei dwy law brau fel dail yn y gwynt wrth iddi sychu'r dagrau o'i gruddiau llwyd. Doedd hi ddim yn gallu deall y peth. Dim ond pum mlynedd yn y carchar am ddyn-laddiad. Llofruddiaeth oedd e, dim dyn-laddiad, ac roedd angen crogi'r bwystfil yna am gymryd ei hunig fab wrthi, meddylodd. Llifodd y dicter trwy ei gwaed fel afon afreolus wrth iddi feddwl am yr anifail yna'n eistedd yn gwylio'r teledu mewn rhyw westy o garchar am y pum mlynedd diwethaf, a nawr roedd e'n rhydd i fyw yn y ty crand gyda'i deulu unwaith eto. "Dyna ddiweddar gyfiawnder" sibryddodd yn grynedig.

Digwyddodd y cyfan un noson pan oedd Jason McArthur yn gyrru adref ar hyd yr heol droellog a oedd eisioes yn flanced crimog coch, aur a melyn o ddail gwywedig. Ar un ochr i'r heol gul ymestynai rhes o goed tal i fyny i'r nefoedd, yn llen drwchus i guddio'r mynydd y tu ol iddynt. Sgleinai'r haul melyngoch drwy'r blychau yn y coed a chreu patrymau rhyfedd ar yr heol. Ar yr ochr arall i'r ffordd roedd yna lethr serth, creigiog, a rhedai'r afon las yn ddwfn a gosgeiddig drwy'r cwm. Roedd Jason McArthur yn awyddus i gyrraedd adref at ei deulu. Roedd hi wedi bod yn ddiwrnod hir ac anodd yn y gwaith a roedd e'n edrych ymlaen i gael ymlacio o flaen y teledu pan ganodd y ffôn ar y sedd.

"Jason? Mae'n ddrwg gyda fi i wneud hyn i ti, ond mae'n rhaid i ti ddod nol i'r swyddfa. Maen nhw am gynnal y cyfarfod heno."

"Na, bydd yn rhaid i chi ddod i ben hebda i. Mae'n nos Wener, a rydw i wedi cael hen ddigon o'r swyddfa 'na am un diwrnod."

"Paid â gwneud hyn i fi Jason. Dere nôl plis, neu does dim gobaith gyda ni i ennill y cytundeb." Ymbilodd ei gyd-weithiwr yn ofer. Trôdd Jason y ffôn i ffwrdd a'i daflu yn ôl ar y sedd wag. Roedd e wedi cael llond bol o'i waith a wedi blino'n lan. Wrth iddo yrru ymlaen teimlodd Jason ei lygaid yn dechrau cau. Brwydrodd e i aros ar ddihun, ond roedd e wedi blino gormod. Doedd dim byd y gallai e wneud. Wrth i'w lygaid gau, gwibiodd beic coch plentyn allan i'r heol o flaen ei gar. Clywodd yr ergyd galed a saethodd llygaid Jason ar agor a gwasgodd ar y brec mewn pryd i achub ei fywyd ei hun, ond fe oedd hi'n rhy hwyr i'r bachgen ifanc ar gefn y beic.

Wrth iddi eistedd yn ei hystafell wely crwydrodd meddwl mam y bachgen yn ôl i'r diwrnod y clywodd bod ei hunig blentyn wedi marw. Roedd e wedi cael ei ddwyn oddi wrthi am byth. Trôdd hi i edrych ar ei lun wrth ochr y gwely. Gwenodd y bachgen bach yn ôl arni'n hapus o'r llun a dechreuodd y dagrau rollo i lawr dros ei bochau hi unwaith eto. Doedd hyn ddim yn deg. Pam oedd yn rhaid i hyn ddigwydd iddi hi? Meddylodd am yr anghenfil a lofruddiodd ei mab a dychwelodd yr atgasedd a'r dicter pur i'w gwythiennau. Roedd e wedi cael ei swydd yn ôl ac roedd e'n byw yn hapus gyda'i wraig brydfarth a'i ferch mewn tŷ moethus. Roedd hi wedi bod yn eistedd ar ei gwely fel hyn bob nos ers iddo gael ei ryddhau o'r carchar. Syllai allan drwy'r ffenestr er mwyn gweld ei gar newydd yn llithro'n lluniaiidd fel neidr drwy'r cwm tua chwech o'r gloch bob nos. Edrychodd ar ei chloc. Hanner awr wedi pump. Byddai ei gŵr yn ôl o'r gwaith cyn hir. Doedd e ddim yn deall. "Mae'n rhaid i ni symyd ymlaen a byw ein bywydau." Dywedai ef yn aml. "Dyw edrych mas drwy'r ffenest ddim yn mynd i dy helpu di i anghofio" Anghofio! Doedd hi ddim eisiau anghofio am ei mab annwyl. Roedd hi am i'r diawl i dalu am beth wnaeth e. Yn union yr eiliad yna fe gafodd hi'r syniad, fel petai rhywun wedi troi swits ymlaen yn ei phen a golau llachar y bwlw wedi tywynnu allan i bob twll a chornel o'i hymenydd. Gwyddai yn gwmws beth oedd yn rhaid iddi ei wneud. Clywodd sŵn car ei gŵr yn gyrru i fyny'r llwybr a rhuthrodd hi i lawr y grisiau. Estynodd am ei chot ac wrth iddi redeg am y drws a'i agor gwelodd siap ei gŵr yn sefyll o'i blaen. "Ble ar y ddaear wyt ti'n mynd yn y tywydd hyn?" Gofynnodd yn ddryslyd.

"I wneud i'r bwystfil ffaidd yna dalu am beth wnaeth e," atebodd hithau'n bendant.

"Beth wyt ti'n feddwl? Paid â siarad yn ddwl! Plis, eistedda i lawr i ni gael siarad."

"Na! Fi wedi penderfynu. Symuda mas o'r ffordd."

"Dydw i ddim yn symud nes i ti feddwl am beth wyt ti'n ei ddweud! Does dim byd yn mynd i ddod â fe yn ôl ti'n gwybod"

"Cer mas o'r ffordd!" Sgrechiodd hi'n ddiamynedd, ond sefyll yn ei unfan yn gadarn wnaeth ei gŵr. Estynodd am un o'r sosbenni oedd ar y bwrdd ac yn ei thymmer trawodd ei gŵr dros ei ben nes iddo gwympo'n bentwr ar y llawr. Plygodd hi i lawr, ond yn hytrach na gwneud yn siŵr bod ei gŵr yn fyw, gwthiodd ei llaw i boced ei got a dwyn allwedd i'r car. Doedd dim byd yn mynd i sefyll yn ei ffordd nawr.

Erbyn hyn roedd blanced ddu wedi cwmpo dros y cwm. Doedd sŵn injan bwerus y *Range Rover* ddim yn ddigon uchel i fodd sŵn y gwynt yn rhuo'n afreolus drwy sgerbydau'r coed. Arllwysodd y glaw o'r nefoedd ddu yn gawod ddi-ddiwedd dros y dyffryn tywyll islaw. Yn awr ac yn y man holltodd mellten felen dywyllwch yr wybren ac yna'r daran, fel mil o offerynnau taro mewn cerddorfa swnllyd, yn ychwanegu at ddrwr'r gwynt. Gyrrodd hi ymlaen yn benderfynol heb gymryd sylw o'r byd o'i chwmpas. Doedd dim modd troi'n ôl rhagor. Parciodd hi'r car mewn lle bach wedi'i gysgodi rhywfaint rhag y gwynt a'r glaw gan y mynydd ac arhosodd hi yno'n ddistaw heb symud modfedd. Syllodd allan drwy'r ffenestr wrth i'r car siglo yn ôl ac ymlaen yn y gwynt. Roedd hi'n ddeng munud i chwech erbyn hyn. Ymhen chwarter awr byddai'r hunllef hyn drosodd unwaith ac am byth.

Gwelodd hi gar Jason McArthur yn dod o amgylch y gornel a sgrechiodd hi ar dop ei llais wrth ddechrau'r injan a stampio ei throed yn syth ar y sbardun. Hyrddiodd y car fel tarw wedi gwylltio tuag at gar Jason. Tasgodd y ddau gar i'r awyr yn yr ergyd cyn rhoi'n bendramwnwgl dros y graig. Trywanodd y creigiau'r cerbydau fel cyllyll miniog cyn iddynt lania'n bentwr drslyd yn y dŵr dwfn.

Wrth i'w char lanw a dŵr, eisteddodd hi yno'n llonydd. Golchwyd y poen, y dicter a'r galar a oedd wedi ei boddi hi dros y blynyddoedd diwethaf i ffwrdd gan yr afon afreolus. Roedd popeth yn iawn yn awr. Roedd y galar a oedd wedi bod yn ei bwyta hi'n fyw wedi ei drosglwyddo i deulu rhywun arall.

CAPEL ISAAC

Oes o Wasanaeth
Cyflwynwyd plât a chloc yn ddiweddar i Eifion Morgan, Pantarfon, Dryslwyn am ei wasanaeth o hanner can mlynedd fel ysgrifennydd Capel Isaac a chwarter canrif yn ysgrifennydd gohebol yr ofalaeth. Yn y llun isod (o'r chwith i'r dde) gwelir ef (ail o'r dde) gyda'i Weinidog, y Parch Edward Griffiths, John Morgan a Tomi Thomas. Diolch o galon iddo am ei waith aruthrol dros yr Achos.



CEFNBERACH

Ysgol Sul
Yn mis Tachwedd bu plant llai yr ysgol Sul yn cymryd rhan yn y cwis a gafodd ei drefnu gan y Cyngor Ysgolion Sul. Roedd 14 tîm yn cystadlu a bu Cefnberach yn llwyddiannus. Da iawn i Gwenllian, Ioan, Megan a Rhys.



Ym mis Chwefror bu'r pedwar yn cynrychioli rhanbarth y de-ollewain yn Aberystwyth lle'r oedd cyfle i ennill hyd at £100 mewn nwyddau i'r Ysgol Sul.
Bu plant yr ysgol Sul i gyd yn cymryd rhan yn Noson Gwaith Llaw ac Arlunio, Pwyllgor Gogledd Myrddin, a chafwyd noson hyfryd o wobrwyo yng Nghapel Salem, Llandeilo. Gwobrwywyd (Bl.0) Fflur Dafis, (Bl.1) Hanna Thomas, (Bl.3/4) Rhys Dafis, Megan Thomas, Ieuan Harries, Ioan Harries, (Bl5/6) Gwenllian Davies. Yn yr oed Uwchradd, gwobrwywyd hefyd Cerys a Siân Davies am eu gweddïau.
Diolch o galon hefyd i Delyth, Llinos ac Esther Jones am ddod ar y noson i chwarae yn y band ac i ddau ffrind i'r ysgol Sul sef Hedd Wyn Jones a Dafydd Wyn Thomas o Gapel Hendre am gynorthwyo. Diolch i chi i gyd.

CRUGYBAR

Daeth tyrfa dda iawn ynghyd ar nos Wener, 28 Ionawr i'r Neuadd Gymunedol i glywed cyflwyniad "Gwenllian y Dywysoges Golledig" gan Mallt Anderson, Caerdydd. Gwfreiddiwyd pawb gan y cyflwyniad bywiog a diddorol am hanes trist y dywysoges fach amddifad, a orfodwyd i dreulio ei bywyd yn Lleandy Sempringham. Roedd yn cychwyn trwy ddangos papur £20 gyda llun Eglwys Gadeiriol Caerwrangon, lle priodwyd Llywelyn ap Gruffydd ac Elinor de Montfort. Llwyddodd i hoelio sylw pawb a thrwy ddangos creiriau hynod o ddiddorol cafwyd diddordeb hyd y diwedd. Roedd clywed am y modd y sefydlwyd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllian yn hynod o ddiddorol, a darganfyd y garreg hynod a chysgod y Lleian ar ei hochr yn uchafbwynt i'r hanes. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mallt Anderson a'i gŵr Don, gan y Cynghorydd Eirwyn Williams. Roedd y noson dan nawdd y gangen leol o Blaid Cymru ac roedd yn hyfryd cael cwmni nifer dda o gyfeillion di-Gymraeg a fu'n dilyn y cyflwyniad drwy wasanaeth cyfieithu ar y pryd gan John Dixon o Fenter Bro Dinefwr.

CWM-DU

Gweithgareddau Cwm-Du
Ymhlith yr amrywiol weithgareddau yng Ngwm-du cynhaliwyd noson arwerthiant i godi arian ar gyfer helpa Cwrtycadno. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Ymwelodd Clwb Seiclo Llanelli ac Abertawe â Chwm-Du ar eu taith flynyddol ar 11 Chwefror lle cawsant groeso twymgalon a chyfle i gynhesu o flaen y tân agored a'u hatgyfnerthu gyda chawl maethlon a phice ar y maen.
Croesawyd Kyra Somerfield i siarad am ei thaith a'i gwaith yn Tseina a dathlwyd blwyddyn newydd y Tseineaid gyda 30 o bobl yn mwynhau pryd o fwyd Tseineaid wedi'i baratoi gan Pat Bazzard, Penrhiwgeingen.
Bob nos Wener daw criw awyddus a brwdfrydig o ddysgwyr i ymarfer y Gymraeg yn y grŵp CYD. Diolch i bawb sy'n cefnogi'r holl weithgareddau hyn yng Nghwm-du.

CYMDEITHAS 200 DINEFWR										
Gwobrau 2004										
Mis	£25	£15	£10							
Ionawr	71	158	34							
Chwefror	103	114	54							
Mawrth	95	23	31							
Ebrill	31	189	124							
Mai	67	196	144							
Mehafin	53	64	39							
Gorffennaf	47	27	118							
Awst	160	63	132							
Medi	107	52	165							
Hydref	185	90	138							

£200	£100	£50	£20	£10
64	66	32	128	193
		12	9	113
		123	101	102
		138	144	
		139	60	

LLONGYFARCHIADAU	
I'R ENILLWYR	

CYNLLUNIAU
Ar gyfer Tai Newydd, Estyniadau a Grantiau

MARTIN WATTS

Maesyreos, Llanwrda, Sir Gâr
Ffôn: Llangadog (01550) 777591

ABACA - BYWYD ORGANIG
Matresi organig tystiedig cyntaf
y DU yn mynd ar werth

Heddiw y mae Abaca yn lansio y cyntaf a'r unig gyfres o fatresi organig yn y byd a ardystiedir gan Gymdeithas y Pridd (*Soil Association*). Datblygwyd y matresi hyn o ansawdd uchel mewn ymateb i'r pryder cynyddol am y defnydd a wneir o gemegau gan y diwydiant gwehyddol a phresenoldeb gwaddodion plaladdwyr mewn ffabrigau.
Lleolir ABACA ar fferm yng ngorllewin Cymru ac fe'i sefydlwyd gan Rhiannon Rowley sydd yn deillio o Sir Gaerfyrddin. Mae gan Rhiannon brofiad o bedair blynedd ar ddeg yn y diwydiant matresi a threuliodd dair blynedd yn gweithio gyda darparwyr allweddol sy'n datblygu ffynonellau gwehyddol organig ar gyfer matresi ABACA.
Rhaid i bob cam yn y gwneuthuriad gael ei ardystio gan Gymdeithas y Pridd, ardystwyr blaenllaw y DU o fwyd organig, cynnyrch gwehyddol ac iechyd. Mae ABACA yn unigryw yn y DU am fod ganddi gadwyn o gynhyrchwyr sydd wedi mynd drwy'r broses hon. Didolir a graddolir gwlan o ffermydd Cymru gan y Bwrdd Gwlân, ei olchi gan *Chadwicks* yn Dewsbury ac wedyn fe'i gynhyrchir i lenwad matres gan *Whiteford Felt & Fillings* yn Huddersfield.
Gwelwyd diddordeb sylweddol eisioes ym matresi ABACA a gwerthwyd rhai yn barod. Clywyd hefyd yn ddiweddar am gynnig Rhiannon o un matres fel anrheg priodas i Charles a Camilla pe dymunent! Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun drwy gysylltu â Rhiannon Rowley ar (01269) 598491 neu (07811) 982 497, neu e-bostio info@abacaorganic.co.uk.

YMWELIAD AELOD SENEDDOL
Yn ddiweddar, bu'n bleser gan Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, groesawu'r Aelod Seneddol, Simon Thomas. Roedd gan yr Aelod dros Geredigion ddiddordeb mawr mewn dysgu am y modd blaenllaw y mae'r Adran yn datblygu ei chysiau. Nid cyflwyno dysg draddodiadol y maent yn unig ond hefyd cyrsiau dros y we, gan ddefnyddio technoleg ryngweithiol a gefnogir gan y Geiriadur Saesneg-Cymraeg mwyaf yn y byd ar lein: www.geiriadur.com
Mae'r Adran hefyd wedi llwyddo i ddenu arian cyhoeddus i weithio ar brosiect cydweithredol â Phrifysgol Dinas Dulyn. Nod y prosiect yw datblygu arfau ieithyddol arlein newydd, fel Gramadegau a Thermiaduron. Bydd yr Adran hefyd yn ychwanegu at y trawsdoriad o gyrsiau ieithyddol sydd ar gael ganddynt.
Mae gan yr Adran fyfyrwyr o dros 30 o wledydd ar draws y byd trwy ddysgu o hirbell. Mae pynciau'r cyrsiau yn amrywio o gyrsiau llenyddol, fel Arthur y Cymry, Santesau Cymru, a'r Canu Cynnar, i ddarpariaeth ieithyddol, fel Cyfieithu, Mynegiant a'r cyrsiau Cymraeg arloesol 'Camu' sydd yn parhau'n llwyddiant ysgubol i'r Adran. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Dr Christine Jones ar (01570) 424931 neu trwy e-bost c.m.jones@lamp.ac.uk



~ DYDDIADUR ~

Cyfraniadau i'r dyddiadur i gyrraedd swyddfa Menter Bro Dinefwr erbyn 20 Mawrth (manylion cyswllt ar dudalen 11)

- MAWRTH**
- 1 Noson Gŵyl Ddewi gyda Janet Aethwy a Llio Silyn yn darllen o'u llyfr 'Syth o'r Nyth' sef atgofion plentyndod ac arddegau yn Neuadd Gymunedol Gwynfe am 7.30pm. Tocynnau wrth y drws.
 - 4 Noson 'Cymru a'r Byd' yng nghwmni Elin Fflur a'r Band a DJ Kader yng Ngwesty'r Castell, Llanymdyfri i ddechrau am 8.30pm. Trefnir y noson gan Fenter Bro Dinefwr a Gŵyl y Cenhedloedd Bychain fel rhan o Gynllun Cymru a'r Byd. Cefnogir gan Tywys a Chynllun Noson Allan. Tocynnau yn £4. Manylion ar (01558) 825336.
 - 4 Cwmni Drama'r Cudyll Coch yn cyflwyno dwy ddrama fer yn Neuadd Carmel i ddechrau am 7.30pm. Manylion pellach gan Enid Jones ar (01558) 822756.
 - 6 Noson yng nghwmni Côr Merched *Atsain* yn Nhŷ Drenewydd, Parc Dinefwr i ddechrau am 7.30pm. Cefnogir gan Tywys. Tocynnau - £6 i gynnwys lluniaeth ysgafn.
 - 10 Cylch Llên Llandeilo yng nghwmni Mr Marc Phillips, Cydlynedd Cenedlaethol BBC Plant Mewn Angen i ddechrau am 7.30pm yn Festri Capel Newydd, Llandeilo. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Cherie Williams ar (01558) 823332.
 - 11 Cyngerdd yn Neuadd Pumsaint gyda chôr Rhianedd Rhys, Aled Davies, ac Ifan 'JCB' Davies.
 - 11-12 'Ugain Mlynedd Ymlaen' – drama gymunedol am streic y Glowyr 1984 yn Theatr y Glowyr, Rhydaman. Cynhyrchiad cyffrous ac unigryw sy'n sy'n edrych ar y streic a'i effaith hirdymor. Cynhelir am 7.30pm ar yr 11eg, ac am 2.00pm a 7.30pm ar y 12fed. Tocynnau mynediad £4 / £2 ar gael trwy gysylltu â 01269 595427.
 - 18 Cwmni Drama'r Cudyll Coch yn cyflwyno dwy ddrama fer yn yr Hen Gapel, Pencader i ddechrau am 7.30pm. Manylion pellach gan Enid Jones ar (01558) 822756.
 - 24 Eisteddfod Gydenwadol Pontargoethi a'r Cylch yn y Neuadd Goffa i gychwyn am 5.00pm.
 - 31 Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo yn yr Hydd Gwyn am 7.45pm. Siaradwraig wadd yw'r Prifardd Mererid Hopwood, Caerfyrddin.
- EBRILL**
- 9 Cwmni Drama'r Cudyll Coch yn cyflwyno dwy ddrama fer yn Neuadd Abergorlech i ddechrau am 7.30pm. Manylion pellach gan Enid Jones ar (01558) 822756.
 - 16 Cwmni Drama'r Cudyll Coch yn cyflwyno dwy ddrama fer yn Neuadd Llandyfan am 7.30pm. Elw at Sioe Amaethyddol Trap. Manylion pellach gan Enid Jones ar (01558) 822756.
 - 23 Eisteddfod Gadeiriol Flynyddol Llansawel. Am fanylion pellach cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Janet Phillips ar (01558) 685446.
 - 26 Cwrdd Cenhadol Chwiorydd rhan uchaf Gogledd Myrddin yng Nghapel M.C. Pumsaint am 2.00pm. Manylion pellach gan Mairion Edwards ar (01558) 822770. Croeso cynnes i bawb.
 - 30 Dydd agored ar Fferm Tyllwyd, Felingwm Uchaf.



~ HYN A'R LLALL ~

GALW TIWTORIAID CYMRAEG NEWYDD!

Mae angen eich cymorth chi ar ddysgwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin! Mae'r nifer o oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn y sir yn tyfu ac mae angen mwy a mwy o bobol i gynnal dosbarthiadau er mwyn ateb y galw cynyddol amdanynt. Felly os ydych chi'n frwdfrydig dros yr iaith, yn hoffi cwrdd a siarad gyda phob math o bobol ac yn gallu rhoi ychydig o oriau'r wythnos i helpu mwy o bobol i ddysgu iaith y nefoedd, darllenwch ymlaen!

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod dros 1,500 o bobol yn dysgu Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd. Mae'r cynnydd diweddar yn y nifer o ddysgwyr yn y sir yn golygu bod angen mwy o diwtoriaid Cymraeg i gynnal y dosbarthiadau yma. A dyma lle gallwch chi helpu! Os yw hyn wedi codi awydd ynoch chi i fod yn diwtor ond eich bod chi dal ddim yn siŵr, dyma diwtor profiadol o'ch hardal chi i rannu ei phrofiadau yn y dosbarth.

Jean Hughes, Myddfai

(fe ddysgodd Jean Gymraeg ei hun ers 1995, cyn dod yn diwtor)

Pam mynd yn diwtor?

Fe wnes i astudio fy Lefel A ond doedd gen i ddim awydd gwneud gradd. Dwi'n hoff o ddysgu, ac ro'n i'n ei weld fel ffordd o ennill incwm ychwanegol i'r fferm.

Ble mae'ch dosbarthiadau?

Llanymddyfri, Llanddeusant, Llanwrda a Llandeilo.

Y pethau gorau am fod yn diwtor?

Dwi wedi gwneud llawer o ffrindiau agos ac ry'n ni'n cael llawer o sbri yn y dosbarthiadau.

Cyngor i ddarpar diwtoriaid?

Ewch amdani – fe wnewch chi ffrindiau da a gallwch chi helpu'ch gilydd!

Ydy'ch profiadau o ddysgu Cymraeg eich hun yn eich helpu fel tiwtor?

Yn bendant! Dwi wedi eistedd ar "ochr arall y bwrdd" a dwi'n gallu rhannu profiadau gyda'r rhai sy'n dysgu.

Am fwy o wybodaeth ar sut i fynd ati i fod yn diwtor Cymraeg, a'r gwahanol gyrsiau sydd ar gael, cysylltwch â Siân Merlys, Trefnydd Cymraeg i Oedolion Cyngor Sir Gaerfyrddin ar (01558) 822729 neu e-bostiwch smeryls@sirgar.gov.uk.

Aled Vaughan
Prosiect Papurau Bro

CYD YN GALW AR SIARADWYR CYMRAEG I HELPU DYSGWYR

Mae Swyddog Datblygu CYD yn ardal Sir Gaerfyrddin a Chwm Tawe, John Dixon, yn chwilio am Gymry Cymraeg i helpu rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg. Mae gan CYD dros 20 o grwpiau ar draws yr ardal, lle'r mae Cymry rhugl a dysgwyr yn dod at ei gilydd i gynnal sgwrs naill ai'n wythnosol neu ynteu'n fisol.

Fel arfer, mae grwpiau CYD yn cwrdd gyda'r nos neu yn ystod y dydd, mewn caffi, neu dafarn, neu rywle cyfleus, a'r bwriad yw fod dysgwyr yn gallu ymarfer y tu allan i'r dosbarth mewn awyrgylch cyfeillgar. Er mwyn cynnal y grwpiau presennol ac ehangu nifer y grwpiau, mae angen i siaradwyr Cymraeg fod yn barod i roi o'u hamser, naill ai yn rheolaidd, neu fel rhan o rota mwy achlysurol, i helpu gyda'r gwaith. Bwriad CYD yw sefydlu nifer o grwpiau newydd trwy'r ardal, ac os ydych chi'n gallu helpu o gwbl, cysylltwch â John ar (01267) 253514 neu trwy e-bost ar john.dixon@corwynt.freeseve.co.uk

LANSIO GWEFANNAU CYMUNEDOL

Lansiwyd System Gwefannau Cymunedol Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar gan Ms Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Datblygwyd y prosiect gan Gymdeithas Ymwelwyr Sir Gâr (CTA) a'i ran-ariannu gydag arian Ewropeaidd trwy'r Bartneriaeth Gwasanaethau Gwledig a Themateg, y WDA, Cyngor Sir Gaerfyrddin a WEFO.

Wrth lansio'r pedair gwefan gymunedol gyntaf, dywedodd Edwina Hart, 'Mae Sir Gaerfyrddin yn ymfalchïo yn ei chymunedau. Mae awdurdodau lleol wedi helpu cymunedau i reoli eu prosiectau, nid yn unig trwy edrych ar brosiectau yn Sir Gaerfyrddin ond rhai ledled Cymru. Er mwyn cael perthynas lwyddiannus, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chymunedau ymwneud â'i gilydd, gwarchod cymunedau a helpu i hybu'r iaith Gymraeg.' Yn y llun gwelir Tim Giles (Prif Weithredwr Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr), Sarah Veck (Pennaeth Datblygu Economaidd Cyngor Sir Gaerfyrddin) ac Edwina Hart, AC.

Bydd y prosiect hwn yn annog yr holl elfennau hyn a bydd yn helpu i f e i t h r i n cysylltiadau a hybu cyfathrebu rhwng unigolion mewn cymunedau. Yn ogystal â lleihau effeithiau ynysu cymdeithasol, bydd y prosiect yn ceisio annog defnydd o'r rhyngwyd a datblygu ymwybyddiaeth o TGCh mewn cymunedau.

Os teimlwch y gallai'ch cymuned chi elwa o'r prosiect hwn neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch Emma Martin-Jewell (Swyddog Prosiect) ar (01267) 220366 neu e-bostio emma@tourlink.co.uk Os hoffech weld beth sydd gan y gwefannau cymunedol i gynnig, mae dwy yn ardal Y Lloffwr, sef www.llanarthne.org.uk a www.llandoverly.org.uk



CHECKPOINT



(01558)
650338

'Tyres, Exhausts a
Batteries'
Profion M.O.T

SIOP Y PENTAN

Y dewis gorau o lyfrau
casetiau a chardiau Cymraeg

Y FARCHNAD NEWYDD
CAERFYRDDIN

(01267) 235044

W.D. LEWIS a'i Fab

MASNACHWYR AMAETHYDDOL

Cangen Pumsaint, Broneb Stores, Pumsaint, Llanwrda,
Sir Gaerfyrddin. ☎(01558) 650215

AMHOLL NWYDDAU AMAETHYDDOL CYSYLLTWCHANI.



Am fusnes cyfeillgar, teuluol, profiadol yn y byd
amaethyddol, heb os, i'ch stoc cewch fwydydd maethlon yn
W.D. a sylw prydlon.



FFAIRFACH



Eisteddfod y Tabernacl 2005

Ar nos Wener, 4 Chwefror cynhaliwyd y bedwaredd Eisteddfod ar ddeg yn y Tabernacl. Bu cystadlu brwd ymhlith y plant dan 12 oed, a diolch o galon i'r ysgolion, sef Teilo Sant a Ffairfach am roi cyfle i'r holl blant i ymarfer eu doniau. Diolch i'r rhai a ddaeth o bell i'n cefnogi hefyd. Ychydig fu'n cystadlu dan 15 a 18 ond er hynny roedd y safon yn eithriadol o uchel. Ni chafodd y beirniaid eu siomi chwaith gan yr oedolion. Braint oedd cael cwmni Mr Alun Guy o Gaerdydd a Mrs Ivoreen Williams o Capel Hendre i feirniadu'r gerddoriaeth a'r llefaru. Roeddent yn adeiladol ac yn gartrefol gyda'r cystadleuwyr. Ein cyfeilydd dawnus eleni eto oedd Mr Jonathan Morgan o'r Tymbl. Yn ôl ein harfer gwahoddwyd un o blant yr Eglwys yn ôl i lywyddu, ac eleni tro Mr Eifion Davies o Llandudoch oedd hi. Daeth ei chwaer Rhiannon gydag ef a diolch iddo am ei araith a'i rodd hael tuag at yr ŵyl. Rhaid cydnabod yn ddiolchgar hefyd rodd Cyngor Tref Llandeilo a heb gefnogaeth ymarferol fel hyn byddai'n anodd cynnal yr Eisteddfod.

Diolch i'r Arweinyddion, sef Bob Roberts ac Ieuan Jones, a phawb a fu wrthi yn y Festri ac wrth y drws. Mae'r ddwy ysgrifenyddes sydd wedi bod wrth y gwaith o'r dechrau yn rhoi'r gorau iddi eleni, ac yn ymbil ar i rywun lenwi'r bwllch. Cofiwch mae angen cadw'r Eisteddfod i fynd yn yr ardal felly, os oes unrhyw un allan yna yn barod i ddod ymlaen i barhau'r gwaith, rhowch wybod i Anne Roberts neu Mary Roberts. Yn sicr cewch bob cymorth a chefnogaeth. Dyma'r buddugwyr:

Cystadlaethau Llwyfan

Unawd dan 6 - Ffion Elin
Llefaru dan 6 - Tom Davies
Unawd dan 8 - Iwan Bowen
Llefaru dan 8 - Ffion Williams
Unawd dan 10 - Ceri Anne Davies
Llefaru dan 10 - Nia Mererid
Unawd dan 12 - Elen Thomas
Llefaru dan 12 - Sioned Elin
Canu Emyr dan 12 - Elen Thomas
Côr dan 12 oed - Ysgol Gymraeg Teilo Sant
Unrhyw Offeryn Cerdd dan 12 - Carys Jones
Unawd dan 15 - Glesni Euros
Llefaru dan 15 - (cydradd gyntaf) Rhys Jones a Glesni Euros
Unrhyw Offeryn Cerdd dan 15 - Glesni Euros
Unawd dan 18 - William Lewis Rees
Canu Emyr dan 18 - William Lewis Rees
Unrhyw Offeryn Cerdd dan 18 - William Lewis Rees
Llefaru dros 30 oed - Sulwen Davies
Parti Unsain - Parti Tabernacl
Her Unawd - Sion Owen
Canu Emyr dros 30 - W.J.

Llenyddiaeth

Rhyddiaeth dan 12 - Catherine Richards, Llanedi
Rhyddiaeth dan 18 - Sara Richards, Llanedi
Brawddeg - Cerys Briddon
Stori Fer dros 18 - Judith Morris
Limrig - Cennydd Llŷr Jones

ylloffwr@papurbro.org

Rhaid i'r deunydd ar gyfer pob rhifyn fod yn nwylo'r Uwch Olygydd neu yn swyddfa Menter Bro Dinefwr erbyn yr 20fed o'r mis blaenorol. Bydd unrhyw ddeunydd a ddaw i law wedi hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y rhifyn dilynol.



FFALDYBRENIN



Ysgol Feithrin Llanycrwys

Yn ddiweddar derbyniodd yr Ysgol Feithrin nawdd o £5,000 oddi wrth y Loteri Genedlaethol. Bellach mae'r cylch yn cwrdd bedwar bore'r wythnos o ddydd Llun i ddydd Iau a gall y plant ddechrau yn ddwy oed. Bydd pob sesiwn yn cychwyn am naw y bore ac yn gorffen am hanner dydd. Llongyfarchiadau hefyd i Lisa Lewis, un o blant y Cylch Meithrin ar ennill y wobr gyntaf am arlunio yng Nghwrdd Cystadleuol Cwrtycadno.

FFARMERS



Neuadd Bro Fana

"Cefnogwyd gan Grant Loteri oddi wrth Cyngor Celfyddydau Cymru". Mae Cyngor Rheolaeth Neuadd Bro Fana, Ffarmers yn falch i dderbyn cynnig o Grant Loteri o £9,000 oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru tuag at y gost o brynu piano newydd i'r Neuadd. 'Roedd y piano blaenorol, a adeiladwyd ym 1862 ac a fu yn y Neuadd ers canol y ganrif ddiwethaf, mewn cyflwr truenus. Bydd piano newydd o fudd i'r gymuned gyfan ac yn addas i'r adeilad a gafodd ei adnewyddu a'i ehangu yn ddiweddar i greu canolfan gymunedol fodern i'r ardal. Cafwyd cefnogaeth arbennig o fewn y gymuned, a chodwyd £1,000 mewn byr amser fel cyfraniad lleol trwy ofyn i bobl i "Noddi Nodyn." Diolchir i Gyngor Celfyddydau Cymru a phawb sydd wedi "Noddi Nodyn" am eu cefnogaeth parod.

Gwefan Gymunedol Cynwyl Gaeo a Llan-y-crwys

Mae'r gwaith o baratoi Gwefan Gymunedol i'r ardal uchod yn dod ymlaen yn dda, a disgwylir i'r wefan gael ei chwblhau erbyn dechrau mis Ebrill. Gellir dod o hyd i'r gwefannau o dan yr enwau *domain* canlynol "cynwylgaeo.org.uk" a "llanycrwys.org.uk" Bydd y gwefannau yn cynnwys lluniau, newyddion, digwyddiadau, gwybodaeth am elusennau lleol, clybiau a mudiadau gwirfoddol, hanes, gweithgareddau, gwasanaethau, cynghorau bro, ac yn y blaen. Gellir cysylltu ag unrhyw un o'r canlynol am wybodaeth pellach: Mrs Joan Stacey o Gyngor Bro Llanycrwys; Mr Alun Thomas o Gyngor Bro Cynwyl Gaeo; Mrs Ann Astington o Ganolfan Gymunedol Crugybar; Mr Carwyn Edwards o Neuadd Pumsaint; Mrs Marian Williams o Ffaldybrenin a Mr Elfyn Davies o Neuadd Bro Fana. Mae'r cyfan yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad gyda Chymdeithas Ymwelwyr Sir Gâr.

Ffotograffiaeth Ddigidol

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn mynychu cwrs ffotograffiaeth digidol, cysylltwch ag Elfyn Davies ar (01558 650507) i gofrestru. Bydd y cwrs yn cynnwys y defnydd o gamerau digidol a chyfrifiaduron, ac yn cael ei drefnu, os bydd yr ymateb yn ffafriol, trwy Rwydwaith Dysgu Sir Gâr. Bydd ffotograffydd proffesiynol yn rhedeg y cwrs a fydd yn para am ddeg wythnos.

Swyddfa'r Post

Cynhaliwyd cyfarfod agored yn Neuadd Bro Fana ar 15 Chwefror i drafod sefyllfa'r Swyddfa Bost sydd ar gau ers mis Hydref. Daeth nifer dda ynghyd, ac roedd pawb yn awyddus i weld y Swyddfa yn ail-agor cyn gynted â phosibl os oedd rhywun yn barod i gymryd at y gwaith fel Is-bostfeistr. Bu hefyd cryn drafod ar y posibilrwydd o gychwyn siop gymunedol i gyd-redeg gyda'r Swyddfa Bost, a daeth cynrychiolwyr o Siop Gymunedol Brechfa i egluro'r datblygiad yno ac Owain Gruffydd o Fenter Bro Dinefwr i sôn am y gefnogaeth ymarferol ac ariannol bosibl. Sefydlwyd is-bwyllgor i edrych ar y gwahanol gynlluniau, ac i drafod ymhellach o fewn yr ardal.

Talwrn y Beirdd a Dramâu

Cafwyd dwy noson ddifyr yn Neuadd Bro Fana ar ddechrau mis Chwefror. Ar yr 8fed, daeth y BBC i'r Neuadd i recordio dwy raglen ar gyfer Talwrn y Beirdd. Y timau a fu'n cystadlu oedd "Y Sgwod" yn erbyn "Tanygroes" a "Ffairhos" yn erbyn "Y Garfan". Rhaid i chi wrando ar y radio i brofi ychydig o naws y noson, ac i glywed yr enillwyr. Ar yr 11eg, daeth Cwmni Drama'r Cudyll Coch, Llandeilo i'n diddori, a chafwyd hwyl fawr yn gwylio dwy gomedi "Helynt y Buarth" a "Helynt ar Fuarth Arall" gan Gwion a Meinir Lynch. Y cynhyrchwyr oedd Robin Pryderi Owen ac Enid Jones. Llywydd y noson oedd Mrs Joan Jones, Buarth yr oen. Yn enedigol o ardal Llandeilo, symudodd gyda'r teulu i fyw yn Caeiogo pan oedd yn blentyn, ac ar ôl priodi, symud i Buarth yr oen. Cafwyd araith hynod ddiddorol a phwrpasol ganddi yn sôn am yr ardal, y dylanwadau, a phwysigrwydd y gymdeithas leol yn ei bywyd. Diolchwyd iddi gan Mrs Gwyneth Richards, Cwmcelyn.

Symud Cartref

Mae Mrs Radcliffe, Bro Felin, Ffarmers yn symud i fyw i Lanymddyfri ar ôl treulio'n agos i ddeng mlynedd ar hugain yn Ffarmers. Pob hwyl iddi yn ei chartref newydd.

LLANARTHNE



Clwb Ffermwyr Ifanc

Bydd Cawl a Chân y Clwb yn cael ei gynnal eleni yn Neuadd yr ysgol ar nos Wener, 4 Mawrth. Llywydd y noson yw Mrs Helena Hitching, Three Counties ac arweinydd y noson yw Mr Meirion Owen, Rhos yr Hafod. Mae Meirion yn un o Is-lywyddion y Clwb ag yn gyn-gadeirydd ac aelod gweithgar iawn o'r Clwb. Aelodau'r Clwb fydd yn diddanu pawb ac edrychwn ymlaen at noson hyfryd yng nghwmni pawb. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at y *Teenage Cancer Trust* a bydd tocynnau yn £4 i oedolion a £2 i blant ysgol.

Clocsio

Mae gwersi clocsio i blant a phobl ifanc yn cael eu cynnal yn y pentref bob nos Fawrth yn Neuadd yr Eglwys gyda phlant ysgol gynradd rhwng 6.00pm a 7.00pm a phobl ifanc ac oedolion rhwng 7.00pm ac 8.00pm. Croeso i bawb a phris y sesiwn yw £2.

CARPEDI PUMSAINT

Gwasanaeth gosod carpedi hen, ail-osod neu newydd

Ffoniwch Alun
(01558) 650364
neu 07977 121201

AXMINSTERS, WILTON,
TWISTS, GWLAN, CORDS,
CUSHIONFLOOR,
UNDERLAYS

"Carpedi i Siwtio Pawb"

Gellir trefnu ymweliad â'r
cartref gyda samplau.

~ ADOLYGU LLYFRAU ~


PWY FYDDAI YN EICH TÎM
DELFRYDOL SCARLETS CHI?

Mae'r llyfr newydd **Straeon o'r Strade** a lawnsiwyd yn ddiweddar yn cofnodi hanes hir a llwyddiannus Clwb Rygbi Llanelli, clwb a gyfeirir ato'n aml fel *Manchester United* y byd rygbi! Mae'r llyfr, a ysgrifennwyd gan y cyn-ddyfarnwr a'r gohebydd teledu **Alun Wyn Bevan**, yn cynnwys tîm delfrydol yr awdur a luniwyd drwy edrych ar y cylch o dalent anhygoel o gyn-chwaraewyr a chwaraewyr presennol Clwb Rygbi Llanelli.

Wrth i'r diwedd agosau i Barc y Strade, cartref ysbrydol y tîm, mae'r clwb yn edrych ymlaen at gyfnod newydd yn ei hanes â stadiwm newydd yn ardal Trostre'r dref. Roedd Parc y Strade yn mecca i ddilynwyr ffyddlon y clwb ac fe ddaeth yn 'Theatr Freuddwydion' i'r dref gyda llawer yn ail fyw hyd heddiw y fuddugoliaeth wefreiddiol dros y Crysau Duon yn 1972 ac yn brolio fel a wnaeth Max Boyce "Roeddwn i yna!"

Edrychai'r llyfr yn ôl ar dros canrif a mwy o rygbi Llanelli drwy fanylu ar yr uchafbwyntiau ac ar yr is-bwyntiau yn ogystal ag amlinellu rhai o'r chwaraewyr gorau erioed, nid dim ond yn hanes Llanelli a Chymru ond yn hanes rygbi'r byd. Tîm delfrydol Alun yw:

- 15 Terry DAVIES
- 14 Ieuan EVANS
- 13 Albert JENKINS
- 12 Ray GRAVELL
- 11 JJ WILLIAMS
- 10 Phil BENNETT
- 9 Dwayne PEEL
- 1 Barry LLEWELLYN
- 2 Norman GALE
- 3 Tom EVANS
- 4 Delme THOMAS
- 5 RH WILLIAMS
- 6 Derek QUINNELL
- 8 Scott QUINNELL
- 7 Ivor JONES



Dwywedodd Alun Wyn Bevan "Fy newisiadau i yw rhain ac nid wyf yn disgwyl i bawb cytuno â mi! Os oes gan bobl ffefrynnau ei hunain rwy'n hapus iddynt gysylltu â mi ac efallai gallwn greu tîm delfrydol arall ar gyfer y dyfodol. Roeddwn am gyfnodi gymaint ag oedd yn bosib o hanes y clwb yng ngeiriau y bobl eu hunain. Rwy'n gobeithio bod y cameo yn y llyfr yn cynorthwyo pobl i ddeallt y clwb a'r gymdeithas sy'n ei gefnogi yn well."

(*Straeon o'r Strade*, Alun Wyn Bevan, £9.99)

LLYFR ADAR GORAU EWROP
- YN Y GYMRAEG

Mae'r llyfr adar mwyaf lliwgar, mwyaf manwl erioed, bellach ar gael yn y Gymraeg. Ers dros ddwy flynedd, bu'r adarwr Iolo Williams yn cydweithio â Gwasg Carreg Gwalch ar dasg anferth - addasu'r llyfr poced gorau yn Ewrop ar gyfer y farchnad Gymraeg.

'Mae 'na rai llyfrau adar sydd angen olwynion odany'n i'w symud o leile - maen nhw mor drwm,' meddai Iolo wrth lansio'r gyfrol mewn cyfarfod arbennig o Gymdeithas Ted Breeze Jones ym Mhlas Tan-y-Bwlch nos Iau ddiwethaf. 'Roeddwn i'n benderfynol mai llyfr hwylus i'w daro mewn poced oedd ei angen - a hwn ydi'r gorau ar y farchnad ryngwladol. Llyfr maes ydi o, llyfr yn y car, llyfr mynd am dro, llyfr gwyliu yn unrhyw ran o Ewrop. Mae o'n gryno eto mae'r cwbl ynddo fo.'

Mae manylion 430 o wahanol rywogaethau yn y gyfrol liwgar 300 tudalen hon, gyda chynifer â 12 llun manwl o rai adar, gan ddangos y gwryw a'r fenyw, yr ifanc a'r llawn dwf, plu'r haf a plu'r gaeaf, yn sefyll ac yn hedfan ac ati.

'Mae hwn i bawb - o'r plant sy'n dechrau dod i nabod yr ymwelwyr ddaw at y bwrdd adar yn yr ardd i'r adarwyr pybyr sydd angen gwybodaeth fanwl am y rhai mwyaf prin, ychwanegodd Iolo. 'Mae hi'n ddechrau tymor newydd, mae'r fwyalchen a'r fronfraith eisoes yn dechrau canu ac mae'n adeg gwyth i ymddiddori yn y bywyd gwyllt sydd o'n cwmipas.'

Bu'r gwaith cynhyrchu yn dasg anferthol i'r wasg. 'Roeddwn ni'n cydargraffu gyda fersiwn Ffrangeg gan ddefnyddio proffenni fersiwn Saesneg,' meddai Myrddin ap Dafydd, rheolwr Gwasg

Carreg Gwalch. "Roedd cadw at yr un gofod testun yn hanfodol ac roedd y gwaith golygu a chysodi yn eithriadol o drwm. Ond drwy'r cyfan mae Iolo wedi creu llyfr unigryw - mae o'n well llyfr na'r gwreiddiol, wedi'i baratoi yn arbennig ar gyfer cynefinoedd Cymru ac yn rhestru enwau llafar gwlad yr adar yn ogystal.' Hwn yw'r cydymaith perffaith wrth wyluo adar - 'Beibl yr adarwr', fel mae Iolo yn ei alw.

(Llyfr Adar Iolo Williams - Cymru ac Ewrop, £9.99)

Angen incwm ychwanegol?
Eisiau gweithio o'r cartref?

Oriau rhan-amser hyblyg, dim angen profiad. Hyfforddiant a chefnogaeth gynhwysfawr i ennill £3K y mis heb risg na chyfaddawdu'r teulu neu yrfa.

Hefyd datblygiad personol ac incwm gydol oes.

Am wybodaeth ffoniwch Owen Jenkins
ar **08444 530532** neu e-bostio
owenjenkins@btopenworld.com

A & B PLANT HIRE & TOOL HIRE

Bryndolau, Ffarmers
Llanwrda
(01558) 650536
Ffacs: (01558) 650516



hefyd yn -
The Old Slaughterhouse
Heol Llanfair, Llambod
(01570) 422522
Ffacs: (01570) 421453

Cysylltwch â'ch asiant lleol am
HURIO ~ GWERTHU ~ GWASANAETH ~ RHANNAU ~ ATGYWEIEIO
AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

EIFION ROBERTS

PLYMWR PROFIADOL

Arbenigwr mewn gwres canolog

(01558) 685007



~ LLECYN LLÊN ~

BRAWDDEG AR Y GAIR MALWODEN

Tair ar ddeg o frawddegau a dderbyniwyd y tro hwn. Er bod arwyddion mewn ambell un ohonynt o'r drafferth a gafwyd i fynegi eu neges yn syml a rhugl, boddhad yw gweld mor lân ydynt o ran beiau gramadegol. Dyma'r brawddegau fel y daethant i law.

Mae amodau lawer wedi oedi dyfeisgarwch egniol newydd. Mi a lynais wrth oleuni daionus ein Nef.
Miloedd a lynant wrth osgo dichellgar ein newyddiaduron. Mae arwyr lawer wedi ochain dan erledigaeth nerthol. Mynnw'n afon loyw wrth osgoi dwyno elfennau natur. Mae aml lywodraeth wedi ofni dedfryd etholwyr nerthol. Mae arfog lywodraeth wedi ofera'n dyfodol economaidd nawr. Mae arfau loes wedi oedi, daw esmwyth nos. Mysg a lladron wnaeth Oen Duw estyn nawdd. Malwoden a lusga'i wagen o dan ei nen. Mae ambell lywodraeth wedi osgoi dysgeidiaeth ein Nadolig. Mynegwyd ar lawer wyneb ofn didostur egni natur. Mae awel lem wedi oeri Dinefwr er Nadolig.

Mae mwy nag un yma wedi bod bron a dweud rhywbeth gwerthfawr, ond wedi cael eu trechu gan ofynion y gair MALWODEN. Brawddeg amserol wrth gofio am y drychineb a fu yn Nwyrain Asia yn ddiweddar yw'r un yn sôn am "ddidostur egni natur," ac y mae cynnwys y frawddeg yn cydio, a gwir iawn yw:

"Mynegwyd ar lawer wyneb ofn didostur egni natur."

Un o'n ffyddloniaid sydd felly'n ennill, sef **Mair Williams** o Langadog. Y gair i chi i'w daclo erbyn y tro nesaf yw CYFARWYDD

GORFFEN LIMRIG

Cafwyd dwy-ar-bymtheg o linellau i orffen y limrig hon.

Rhyw groten fach welais un noson
Mewn cornel yn crio ei chalon,
Pan geisiais yn fwyn
Gael gwybod ei chwyn

.....

Mae safon y llinellau y tro hwn yn foddhaol iawn, gyda llai na'r arfer o linellau cloff eu mydr. Pan fydd mydryddiaeth llinell yn anghywir bydd yn swinio yn amhersain, felly roedd darllen y syniadau a gafwyd yn y llinellau hyn yn hyfrydwch. Ac y mae yma ddigon o amrywiaeth yn y syniadau.

Yr oedd wedi colli'i chymdeithion.
R'oedd ci wedi dwyn ei danteithion.
Ces ddim ond edrychiad ddigalon.
Fe redodd hi bant ar ei hunion.
Ces hanes holl hynt ei helbulon.
Amlygodd ei hofn o oedolion.
Ni fedrais wneud sens o'i phryderon.
Mi gefais gymysgfa o straeon.
Dim ateb er gofyn yn dirion.
Mi redodd i ffwrdd ar ei hunion.
Yr oedd wedi colli'i anrhegion.
Gofynnodd a oeddwn yn blismon.
Edrychodd drwy'i bysedd bach meinion.
Dan draed oedd ei phecon o greision.
Atebodd mewn iaith oedd yn estron.
Heb ffydd anodd oedd ateb prydlon.
Ei 'mobile' ar lawr oedd yn yfflon.

Mae yna ddigon o linellau cymeradwy ymysg y rhai hyn, ond yr wyf wedi dewis yr un olaf hon. Mae hi yn un gredadwy mewn oes y mae bron pob plentyn â'i ffôn symudol, a buasai gweld y trysor hwn yn yfflon ar y llawr yn siŵr o droi'n achos dagrau. Felly rwy'n gwobrwyo:

Ei 'mobile' ar lawr oedd yn yfflon.

Yr enillydd yw **Glenys Davies** o Fanordeilo. Ar gyfer y tro nesaf ceisiwch feddwl am linell i orffen y pennill hwn:

Mae'n gyfnod go fain ym myd ffarmio
A'r ifanc o'n tir sydd yn cilio,
A welwn y dydd
Yn dyfod pan fydd

.....

Anfonwch eich gwaith at T.M. Thomas, Tirallen, Llanwrda erbyn 12 Ebrill.

ADEILAD CLADDINGS

(EIRIAN DAVIES)

Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda

☎(01550) 777497

zinc sheets a steel girders arbenigwyr mewn toeon crwn

GERAINT DAVIES

CONTRACTWR AMAETHYDDOL

Amrywiol beiriannau ar gael yn cynnwys
peiriant twrio ar draciau rwber 5 tunnell
Dumper 6 tunnell a Sanderson –
addas ar gyfer amrywiol dasgiau

☎ (01558) 685252

LLANYMDDYFRI



Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yn y Neuadd Catholig Llanymddyfri gyda Evelyn Davies ein llywydd yn y gadair. Dechreuwyd trwy ganu Cân y Mudiad. Cydymdeimlwyd â Margaret Davies, Tynywaun a oedd wedi colli ei gŵr ac Eleri Jones a oedd wedi colli ei mam. Cydymdeimlwyd hefyd â Mavis Price - ei ŵyr a'i gariad wedi eu dal yn y Tsunami yn Ne Asia. Dymunwyd llwyr wellhad i chwaer-yng-nghyfraith Eirlys Faulkener. Y gŵr gwadd oedd Mr Eirwyn Stephens – y milfeddyg o Lanymddyfri. Bu'n olrhain hanes ei waith yn yr ardal a hefyd gyda DEFRA â'r Weinuddiaeth Amaeth gyda ambell stori ddigri iawn. Gwnaed y diolchiadau gan Nesta Evans.

Clwb Gwawr

Cafodd aelodau Clwb Gwawr ddydd Sadwrn i'w gofio rai wythnosau yn ôl. Cawsom gyfle i fod yn gynulleidfa y rhaglen gwis 'Risg'. Gwyliwch y rhaglen i'n gweld arno yn fuan! Gallwch ein gweld cyn hynny yn y llun isod!



PONTARGOTHI



Eisteddfod

Eleni eto fe gynhelir Eisteddfod Gyd-enwadol ym Mhontargothi a hynny ar Nos Iau, 24 Mawrth yn y Neuadd Goffa. Disgwylir cystadlu brwd rhwng mynychwyr yr Ysgolion Sul lleol, sef Eglwys y Drindod; Eglwys Sant Egwad, Horeb (A), Eglwys Sant Ioan, Nantgaredig M C, Siloam (A), Sitim (B) ac Eglwys Llanfihangel Uwch Gwili.

Dwy o aelodau hŷn Capel Siloam sef y chwiorydd Mrs Sally Davies, Brynderwen a Mrs Maggie Davies, Llandysul - y ddwy wedi cystadlu'n frwd yn yr adran lenyddol ers y cychwyn - yw llywyddion y noson.

Y beirniaid fydd Mr Iwan Evans, Caerfyrddin (Cerddoriaeth); Mr Gareth Morgans, Abergwili (Amrywiaeth) a Miss Bethan Rogers, Caerfyrddin (Gwaith llaw, llawysgrifen ac arlunio).

Y swyddogion gweithgar eleni yw Mrs Elonwy Phillips, Hendygywn, Mr. T.H. Evans, Nantgaredig (Trysorydd), ac Mr John James, Felingwm Uchaf (Ysgrifennydd). Rhif ffôn (01267) 290537. Mae croeso cynnes i'r cyhoedd alw heibio yn yr Eisteddfod a fydd yn cychwyn fel arfer gyda chystadlaethau'r plant am 5.00pm yn brydlon.

WILLIAM I. PHILLIPS

DERWENEG, LLANSAWEL

☎(01558) 685446

Symudol 083659 89 89

**CONTRACTWR CLUDIANT
CYNNYRCH CHWAREL**

PUMSAINT



C.Ff.I. Dyffryn Cothi

Nos Iau, 6 Ionawr, cyhaliwyd gyrfa chwist yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint. Trefnwyd y noson gan Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Cothi er mwyn codi arian i leddfu poen y rhai sy'n dioddef wrth law y Tsunami yn Asia. Codwyd swm canmoladwy o £300, a hoffai'r clwb ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson, yn enwedig i'r ddau M.C., Emlyn Morgan, Myddfai a Dylan Rees, Capel Isaac. Diolch hefyd i'r enillwyr chwist a'r raffl am roi eu gobrau yn ôl i helpu'r achos. Llongyfarchiadau i Mrs Ann Williams (cyntaf), Irene Williams (gŵr cyntaf), E S Thomas (gwraig gyntaf), Ben Jones (bachgen cyntaf), Elen Davies (merch gyntaf) ac Emyr Richards (aelod o Ddyffryn Cothi). Gwelir yn y llun isod hefyd ddau dîm sisrad cyhoeddus (adran hŷn) y Clwb a fu'n cystadlu'n ddiweddar.



Pwyllgor y Neuadd

Mae Pwyllgor y Neuadd yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer cyngerdd yn y Neuadd ar nos Wener, 11 Mawrth pan fydd Côr Rhianedd Rhys, o Lanymddyfri dan arweiniad Lynne Bryer yn perfformio. Hefyd bydd tenor ifanc o Lanbrynmair, Aled Davies, a enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol yn 2003 yn cyflwyno unawdau. Arweinydd y noson fydd Ifan 'JCB' Davies, ac edrychir ymlaen i fwynhau cyngerdd hyfryd dros ben. Llywydd y noson fydd Mr Ieuan Williams, Abermangoed, yntau hefyd yn amlwg ym mywyd cerddorol y fro ac yn enillydd Cenedlaethol. Mae tocynnau ar gael am bris o £4 oddi wrth aelodau'r Pwyllgor. Noddir y gyngerdd gan Tywys.

L.J. BAILEY A'I FEIBION

LLANGADOG (*Siop Fwydydd MACE*)

*Prisiau cystadleuol
Pob math o gig a bacwn o ansawdd da
Gwasanaeth rhagorol bob amser*

☎ (01550) 777217 [Bwydydd]

☎ (01550) 777242 [Cigydd]



SIOP Y CENNEN

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman
am eich

LLYFRAU*CRYNODDISGIAU*CARDIAU
CREFFTAU*FIDEOS*C.D.ROMau*CASETIAU
Telerau arbennig i ysgolion a chymdeithasau
☎ (01269) 595777 hywelwyn@aol.com

SALEM

Cyflwyno Siec

Gwenfil Evans yn cyflwyno siec o £750 ar ran Capel Salem, Heolgaed i Ann Hopkins a Heulwen Rogers o Croesffyrdd Caerfyrddin/Dinefwr yn dilyn llwyddiant Gŵyl y Goeden 2004.



TALYLLYCHAU

Undeb Amaethwyr Cymru


Achlysur nodedig yng nghalendr cangen Talyllychau o Undeb Amaethwyr Cymru yw'r cinio blynyddol a drefnir yn Nhafarn Rhydedwin gan Mr Geraint Davies. Cynyddodd poblogrwydd y noson trwy'r ardal gyfan dros y blynyddoedd ac eleni eto mynychodd dros gant o bobl. Cafwyd gair o groeso gan Gadeirydd y Pwyllgor, sef Mr. Edwin Arblaster a llywiwyd y gweithgareddau gan Geraint. Diolchodd i'r teulu yn y dafarn am bryd o fwyd bendigedig, tri chwr o ginio cig eidion neu dwrci gyda dewis helaeth o lysiau a'r cyfan mewn cwmni difyr. Trefnwyd raffl ac arwerthiant ar y noson a phenderfynwyd cefnogi Uned Chemotherapi Ysbyty Glangwili gyda chyfran yn cael ei glustnodi ar gyfer aelodau'r staff yn Rhydedwin. Diolchodd Geraint i bawb am eu presenoldeb, eu cefnogaeth a'u haelioni ac am eu cyfraniad at awyrgylch hyfryd y noson.

Noson Tip-it

Noddir Sioe Amaethyddol Cymru eleni gan Sir Gaerfyrddin ac y mae llawer cymdeithas yn y sir yn brysur yn codi arian at y gronfa. Un o'r gweithgareddau a drefnwyd oedd gornest Tip-it a gynhaliwyd yn nhafarn Rhydedwin nos Wener, 18 Chwefror pan ddaeth criw ffyddlon ynghyd i godi arian ac i gael hwyl.

JOHN ANTHONY

CERFLUNWYR
COFADEILIAU
a SEIRI MAEN



a'i Gwmni

Perch. E. Ja
N. Gimblett
(C. Harry gynt)

28a STRYD FAWR, RHYDAMAN

☎ (01269) 596227 Nos: 592935

Cerflunwyr Cofadeiliau yn lle uchod ers 1920 hefyd yn

6 STRYD Y FARCHNAD, LLANDEILO

☎ (01558) 823104

TRAP


TRAP

Chwaraeon Cymunedol

Cafwyd noson o chwaraeon cymunedol yn Neuadd yr Eglwys Llandyfan rai wythnosau yn ôl rhwng Sefydliad y Merched Trap a'r Sioe Amaethyddol. Roedd yn noson hwylus dros ben a phawb wedi mwynhau. Chwaraewyd sgittls, dominos, tenis bwrdd a dartiau a gwelir y rhai a ddaeth i'r brig isod.



Sgityls (o'r chwith i'r dde) Pat Thomas (ail) a Dai Saunders (cyntaf)



Dominos (o'r chwith i'r dde) Dai Saunders a Gareth Williams (cyntaf) ac Olive Turrell (ail)



Tenis Bwrdd (o'r chwith i'r dde) Martin a Tom Jury (ail) a Ben Jury a Dai Saunders (cyntaf)



Dartiau (o'r chwith i'r dde) Bryan Jones, Gareth Enoch, Wyn Thomas ac Emrys Williams (cyntaf) a Dai Williams, Gordon Griffiths, John Turrell a Gareth Williams (ail). Hefyd yn y llun mae Olive Turrell, Is-lywydd Sefydliad y Merched Trap a drefnodd y noson.

~ HWYL YN YR ARDD gyda Hywel Jones ~

CYNLLUNIO GARD

Mae'r dull o arddio heddiw fel bron popeth arall, wedi newid am amryw o resymau. Y rheswm pennaf efallai, yw am fod gwragedd tŷ yn gweithio'n llawn amser ac yn brin o amser sbar ar gyfer garddio. Yn ogystal, mae'r cyfrifiadur, y rhyngwrwyd a'r teledu yn dwyn sylw, a'r car modur mor gyfleus i fynd ar deithiau yn arbennig yn yr haf pan mae angen sylw ar yr ardd. Am y rhesymau hyn, mae llawer o erddi wedi eu trawsnewid yn batïo neu yn lawnt - heb anghofio ambell bwl pysgod neu bwl nofio.

O ganlyniad, mae gwerthiant coed addurniadol, prysglwyni a photiau o flodau parhaol wedi cynyddu yn syfrdanol, a llai o alw am offer garddio fel y bâl a'r rhaw. I'r rhai sy'n parhau i ymddiddori mewn garddio, mae cymorth ar gael wrth brynu peiriant i redeg ar danwydd petrol neu drydan i dorri porfa, neu beiriant palu i balu'r pridd a nyddwr i hau had.

Mewn gardd hollol newydd, cyngor da cychwynnol i'r perchennog fyddai i astudio'n fanwl ble mae'r mannau cysgodol, mannau heulog, y mannau gorau ar gyfer llysiau a choed ffrwythau neu beth bynnag arall y dymunir eu tyfu. Fe fyddai sgwrs gyda chymydog o gymorth i ddeall daearyddiaeth yr ardal hefyd, a gellir cael cynghorion ychwanegol wrth rai o'r garddwyr lleol hefyd.

Un tip bach - os bydd llawer o grug, coed pinwydd a choed rhododendron yn tyfu'n llewyrchus, golyga hyn fod y pridd yn asid. Os bydd clematis yn tyfu'n wyllt ar y cloddiau a digonedd o goed ffawydd brodorol (*natural beech*), dengys fod y pridd yn alcaliaidd. Os bydd patrwn coed yn plygu tuag un ochr, dengys yn eglur beth yw nerth a chyfeiriad y gwynt.

Mewn ardal fel Dyffryn Tywi, mae pridd rhai gerddi yn asidaidd yn enwedig hen erddi. Mewn gardd sydd heb ei thrin am rai blynyddoedd, gall fod yn llai asidaidd ac felly mae pH y pridd yn ddelfrydol ar gyfer tyfu'r mwyafrif o flodau a llysiau yn llewyrchus yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae hyn o ganlyniad i law trwm, asidaidd yn rhedeg trwy'r ddaear mewn gardd segur, ond nid felly mewn gardd sydd wedi ei thrin yn dda. Dylid gwneud prawf ar y tir, ac os yw'r elfennau (*trace elements*) yn brin, dylid ychwanegu lludw esgyrn.

Wrth baratoi lawnt, dylid yn gyntaf garthffosi'n dda cyn hau yr hadau. Dewis rhai yw gosod tywyrch. Gwell yw hau had porfa o'r fath (*slow growing*), er mwyn i'r gwreiddiau gael perffaith chwarae teg i sefydlu. Dylid hau yn gyson er mwyn osgoi cael ambell gornel moel yn y lawnt, a gofalwch nad oes dim byd fel cerrig yn y lawnt, er mwyn osgoi rhwystrau pan yn torri'r borfa maes o law. Cofiwch beidio torri'r borfa yn rhy fyr y tro cyntaf, a dylid gadael y toriadau ar y lawnt hefyd.

LLOGI
CESTYLL
NEIDIO

Beth am roi hwyl a sbri i'r parti?!
Cestyll bownsio tu fewn neu'r tu allan

Prisiau o £35 y dydd
Nifer o gestyll â themâu gyda llithren
Dosbarthiad am ddim o fewn 15 milltir

☎ (01269) 850051

Rhaid cadw'r chwyn mewn lawnt newydd o dan reolaeth, a'r modd gorau i wneud hyn yw trwy ddefnyddio cemegyn i'w ladd - y mwyaf poblogaidd yw'r un systemig a chwistellir ar ddail y chwyn gan chwistellwr, sydd o ganlyniad yn diogelu'r planhigion eraill. Ar lwybrau a mynedfeydd, dylid ddefnyddio'r cemegyn 'Sodium Chlorate' sy'n cadw'r chwyn draw am chwe mis. Mewn gardd sydd wedi ei hesgeluso nes ei bod wedi tyfu'n wyllt, dylid torri'r tyfiant a gosod 'polythene' du dros yr wyneb a'i adael am fis neu ddau, i sicrhau lle cyn glan a phridd o dymheredd addas ar gyfer plannu a hau. Os bydd y pridd yn drwm, dylid ei ysgafnhau trwy ddefnyddio mawn, gan wneud yn siŵr bod y mawn yn eithaf gwlyb cyn ei balu i mewn i'r pridd. Os am ddewis tyfu blodau ar lecyn llethrog, syniad da fyddai plannu planhigion parhaol yn gymysg â rhai blynyddol, gan osod rhai gweddol isel ar y gwaelod a rhai sydd â mwy o daldra uwchben megis rhai sy'n rhaeadr fel llysiau'r gwaed (*periwinkle*). Mae gan hwn flodau porffor ar adegau, a dail lliwgar sydd yn medru taenu'n dew dros yr wyneb. Un arall addas fyddai llysiau Ioan (*St John Wort*), gan fod gan hwn liw melyn, dail lliwgar, ac mae'n tyfu'n dew i dagu chwyn. Os bydd y pridd yn asidaidd fe fydd grug o wahanol fathau a lliwiau yn hardd i flodeuo drwy'r flwyddyn.

Yn fy ardal i, mae llawer o'r mewnfydwyr wedi cynllunio eu gerddi yn y dull o 'raised beds' (gweler y lluniau) er mwyn tyfu ffrwythau a llysiau. Syniad da er mwyn medru trin yr ardd heb orfod plygu mewn henaint, ac mae hefyd yn hawdd i'w chynnal a'i chadw. Er mwyn gwneud hyn, mae angen gosod planciau sydd wedi eu trin yn addas, ac wedi eu gosod fe fyddant yn ddiogel am o leiaf 20 mlynedd cyn pydru.

Fel addurn gellir cynllunio pwll dŵr ar gyfer pysgod neu blanhigion ac ynddo rhod ddŵr fechan (water wheel), neu un sy'n gweithredu trwy gyfrwng panel solar. Mae'r lampau



marker Pagoda lights (mae deg tua £30) wedi gosod o amgylch yr ardd yn derbyn ynni oddiar yr haul yn ystod y dydd ac yn goleuo pan fydd hi'n nosi. Gall ambell geiliog y gwynt, 'chiming bars' a bwrdd adar wneud gwahaniaeth.

Ar batïo, gellir defnyddio amrywiaeth o botiau yn llawn blodau haf yn gymysg â rhai parahol, a gellir eu symud yn ôl y dewis gyda'r tymhorau wedyn.

Hyderaf fod y sylwadau hyn wedi bod o gymorth i arddwyr yr ardal. Dymunaf bob llwyddiant i chi gyd yn yr ardd a boed i'r glaw a'r heulwen yn eu tro fod yn garedig i chi, yn ogystal ag eira!

NEW ROAD GARAGE

☎ (01550) 720836

Gwerthir petrol a diesel yma

Wedi Tori Lawr? Ffoniwch Ni!

Unrhyw amser o'r dydd neu'r nos

Pob math o wasanaeth moduron a gwaith Atgyweirio Ffrâm



~ Merched y Lloffwr ~

Mae'r golofn hon yn gyfle i un o ferched bro Dinefwr ddweud ei dweud bob mis. Bydd rhywun gwahanol yn cyfrannu ym mhob rhifyn o'r **Lloffwr**, yn sôn am rywbeth mae hi am fwrw ei bol yn ei gylch, neu ei rannu â chi. Y mis hwn, tro **Nia Clwyd**, yw hi.



Un o'r pethau sy'n mynd â rhan helaeth iawn o fy amser i ar hyn o bryd yw ceisio arwain a chadw trefn ar Fois y Castell – sy'n dipyn o job ar adegau, credwch fi! Ond, pam arwain côr o fechgyn yn y lle cynta', meddech chi? Cwestiwn da, ac un y byddai i'n ei ofyn i mi fy hun yn aml!

Mae'r diddordeb a'r awydd i arwain corau yn deillio'n ôl i ddyddiau coleg yn bennaf mae'n siŵr. Tra yn y Brifysgol ym Mangor a thra'n byw yn Neuadd JMJ y daeth y cyfle cyntaf i arwain côr o unrhyw fath, a hynny yn yr Eisteddfod Ryng-golegol. Doedd hynny ddim y profiad rhwyddaf dan haul – doeddech chi byth yn siŵr pwy fyddai'n ymddangos o'ch blaen ar y llwyfan nac ym mha gyflwr y byddai rhai ohony'n nhw! Ond dyna ni, roedd yn dipyn o sbort a'r gystadleuaeth ffyrnig rhwng Bangor ac Aberystwyth yn ychwanegu at yr hwyl a'r cyffro!

Yn ystod fy nhrydedd blwyddyn ym Mangor fe ges i'r cyfle i fynd â chor merched JMJ i'r Wyl Gerdd Dant ym Mhwlheli i gystadlu ar y Côr Gwerin. Roedd hwn yn brofiad gwahanol iawn a phawb yn cymryd pethau o ddifrif y tro yma. Freuddwydais i erioed am lwyddiant y diwrnod hwnnw, ond er mawr syndod i mi, ni ddaeth i'r brig. Cofiwch chi, efallai ei bod hi wedi bod o fantais fod gan y beirniaid a minnau yr un chwaeth mewn dillad ar y diwrnod arbennig hwnnw!!

Un o'r pethau sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i mi yn sicr yw hyfforddi plant a phobl ifanc i ganu. Does dim dwywaith eu bod nhw'n llawer haws i'w trin na chriw o ddynion ac yn llwyddo i ddysgu eu gwaith mewn hanner yr amser! Dydy mynd draw i Ysgol Teilo Sant neu i Ysgol Bryn Tawe i ddysgu canu ddim yn waith!

Yn ystod fy mlynnyddoedd cyntaf yng Nghaerfyrddin fe fûm yn ffodus iawn o gael y cyfle i gynorthwyo Islwyn Evans yng Nghastellnewydd Emlyn ambell i fore Sadwrn yn ystod dyddiau cynnar Ysgol Gerdd Ceredigion. Fe wnes i elwa'n fawr o'r profiad a dysgullawer wrth wyllo Islwyn wrth ei waith. Mae gen i barch ac edmygedd mawr tuag ato fel arweinydd corawl ac mae'r cyfle mae e'n ei gynnig i blant a phobl ifanc ei ardal yn amhrisiadwy. Oni fyddai hi'n braf gweld rhywbeth tebyg yn cael ei sefydlu yma ym Mro Dinefwr? Does dim dwywaith bod gennym ninnau hefyd blant a phobl ifanc talentog iawn a allai elwa o brofiadau tebyg.

Wel, mae'n well i mi ddod yn ôl at Fois y Castell mae'n siŵr. Fel mae'r rhan fwyaf ohonoch yn gwybod, canlyniad Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr 1996 ydy'r côr. Rydw i bob amser wedi bod yn berson sy'n hoffi her a sialens newydd, a phan ofynnwyd im i gan Gareth Vaughan i fynd ati i sefydlu côr ar gyfer yr Eisteddfod, wnes i ddim pendroni'n hir. A bron i naw mlynedd yn ddiweddarach rydw i'n falch i mi wneud y penderfyniad hwnnw. Mae'n waith caled ar adegau ac yn dreth ar amynedd ambell waith; ond pan fyddant ar eu gorau mae'n rhyw wefr arbennig i'w deimlo a'r gwaith caled yn talu ffordd. Does dim dwywaith eu bod nhw'n griw o adar ond maen nhw'n griw triw iawn hefyd, yn ffrindiau da ac yn llawn sbri; a nac ydw, wir yr, dydw i ddim byd tebyg i Davina!!!

dan ofal Prosiect Papurau Bro

CYSTADLEUAETH Y MIS

**Tocyn teithio gwerth £80 i un person
lwcus gan gwmni Jones Login
i'w ddefnyddio o fewn y flwyddyn ar
deithiau yng Nghymru neu dramor**



Sefydlwyd Jones Login yn Hydref 1965 er mwyn cludo pobol gorllewin Cymru i bedwar ban, ac maent yn dathlu pen-blwydd arbennig eleni.

I gael cyfle i ennill y wobr hon, atebwch y cwestiwn isod.

Ers faint o flynyddoedd mae Jones Login wedi bod mewn busnes?

Ateb:

Enw:

Cyfeiriad:

.....

Rhif ffôn:

Anfonwch eich ateb a'ch manylion ar y tocyn hwn at:

**Alison Gibbard, Prosiect Papurau Bro,
d/o Menter Bro Dinefwr,
Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant,
Llandeilo, SA19 6HW.**

DYDDIAD CAU: Dydd Gwener, 18 Mawrth
Ni dderbynnir tocynnau wedi eu llungopio.
Trefnir y gystadleuaeth gan y Prosiect Papurau
Bro ar y cyd rhwng Clebran, Y Lloffwr,
Y Garthen, Y Cardi Bach a Cwlwm

CYSTADLEUAETH

Cyfle i un o ddarlennwyr **Y Lloffwr** ennill copi o lyfr newydd Bethan Gwanas, **Cerdded y Llinell (Hughes a'i Fab).**

Atebwch y cwestiwn syml:

Ble yng Nghymru wnaeth Bethan Gwanas ddechrau ei thaith i ddilyn llinell lledred y byd?

Anfonwch eich ateb a'ch manylion at:
**Prosiect Papurau Bro, d/o Menter Bro Dinefwr,
Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant,
Llandeilo. SA19 6HW.**

DYDDIAD CAU: dydd Llun, 18 Mawrth 2005

Trefnwyd y gystadleuaeth gan y Prosiect Papurau Bro.

~ O'R YSGOLION ~

YSGOL GYNRADD NANTGAREDIG

Cafwyd tymor llewyrchus arall gyda'r plant yn cael cyfleoedd di-ri. Mae'r tîm Cwis Llyfrau Cymraeg a thîm Cwis yr Urdd wedi llwyddo i gyrraedd yr ail rownd yn eu cystadlaethau. Bu llawer o gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ar y llwyfan, gyda'r celf a chrefft a gyda'r gwaith cartref.

Daeth llawer o ymwelwyr i'r ysgol yn cynnwys Awen Thomas – tîm rygbi merched Cymru, Mrs Greenacre yn sôn am gyfnod y rhyfel, Mr Nigel McCall a Chwmni Drama Arad Goch.

Uchafbwynt y tymor oedd y perfformiad o'r 'Barcud Coch' gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Bu Mrs Ina Morgan, Miss Anwen Evans a phlant blwyddyn pedwar yn gweithio ar y prosiect cyffrous yma drwy gydol y tymor ac roedd yn werth chweil!

Ar ddiwedd y tymor byddwn yn cau pennod arall yn Ysgol Nantgaredig gydag ymddeoliad Mrs Gwenda Evans, athrawes yr Uned Iaith a Lleferydd ar gyfer y Babanod. Daw ei thymor i ben wedi deuddeg mlynedd o ymroddiad llwyr i'r ysgol. Bydd ein sefydliadau yn dlotach o'i cholli. Dymunwn yn dda iddi ar ei hymddeoliad gan obeithio ei gweld o bryd i'w gilydd. Bydd casgliad yn yr ysgol ar ei chyfer a gellir cyfrannu drwy law Mrs Jeni Rees neu Mrs Cynthia Jones.

YSGOL GYNRADD LLANARTHNE

Yn dilyn cyfnod prysur adeg y Nadolig, mae pawb yn paratoi tuag at Eisteddfod yr Urdd, eisioes mae'r gwaith llaw wedi ei gwblhau a bydd y plant yn canu ag adrodd yn yr Eisteddfod Cylich cyn bo hir. Mae'r clybiau nos yn mynd yn llwyddianus gyda'r plant yn cael amrhywiaeth o weithgareddau wedi eu paratoi. Yn mis Mawrth bydd nifer yn mynd ar drip i Llundain i weld dwy sioe gerdd a mynd ar wibdaith o amgylch y brifddinas. Mae hyn ar y cyd gyda thair ysgol arall o'r fro a da o beth yw gweld ein hysgolion bach yn gweithio mor agos gyda'i gilydd. Ar nos Wener, 11 Mawrth mae yna noson gwis yn yr ysgol o dan arweiniad y Gymdeithas Rien i ac Athrawon i ddechrau am 7.00pm ac mae yna groeso i bawb.

YSGOL GYNRADD LLANGADOG

Croeso cynnes iawn i'n disgyblion newydd eleni sef Non, Nia Mai, Caitlyn, Ifor, Ben, Aaron ac Iestyn. Fe ddechreuodd y flwyddyn gyda Chyngerdd Mawreddog yn Neuadd Llangadog. Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn perfformio ac yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y ffordd draddodiadol Gymreig.

Roedd disgyblion Blwyddyn 6 wrth eu bodd y tymor hwn i gael y cyfle i gydweithio gydag Ysgolion Llanwrda a Phantycelyn ar brosiect Perthnasedd a drefnwyd gan y Pennaeth Mrs Siân Evans. Hefyd bu nifer o ymwelwyr yn yr ysgol gan gynnwys Ms Joanna Rhind a oedd yn cynnal ymarferion i gerddorfa'r ysgol. Daeth Cwmni Theatr Arad Goch i ddiddanu'r disgyblion hyn gyda 'u perfformiad o'r "Ysbryd".

Bu'r disgyblion yn paratoi eu gwaith ar gyfer cystadleuaeth Celf yr Urdd a llongyfarchiadau i Evan Davies, Tom Beezer, Hannah Collis a Caryl Howells ar fod yn fuddugol. Mae pawb wrthi ar hyn o bryd hefyd yn paratoi at Eisteddfod Gylch yr Urdd - pob lwc i'r holl gantorion, adroddwyr, y dawnswyr gwerin a disgo, yr offerynnwyr a'r unigolion sy'n cystadlu.

Mae paratoadau brwd yn mynd ymlaen i baratoi at ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Fe fyddwn yn cynnal Cymanfa Fodern yn Neuadd Gymunedol Llangadog ar 1 Mawrth am 7:00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb! Ar ben yr holl hyn mae'r disgyblion hefyd yn paratoi at gystadleuaeth Trawsgwlad y Sir ar gaeau Sioe Nant-y-ci ar 9 Mawrth. Pob lwc i bawb.

~ NEWYDDION Y PORTHMYN ~

Mae'r mis diwethaf wedi bod yn gymysgedd o emosiwn i bawb sy'n gysylltiedig â'r Porthmyn, ac yn enghraifft dda o'r uchafbwyntiau ac iselfannau sydd ym myd rygbi.

Collwyd y gêm gwpan Konic Mintola yn erbyn Llantwit Fardre, a hynny mae'n siŵr gyda'r perfformiad gwaethaf a welwyd ar Fanc yr Eglwys ers sawl blwyddyn. Yn anffodus, roedd eu buddugoliaeth yn gwbl haeddiannol a gellid maddau i unrhyw gefnogwr niwtral am ofyn 'pwy ar wyneb daear oedd y tîm hwn oedd yn chwarae yn yr Uwch Gynghrair!' Un o'r unig bethau positif i ddod o golled y Porthmyn yn y cwpan oedd bod y chwaraewyr a'r hyfforddwyr wedi cael cyfle i eistedd lawr a thrafod beth aeth o'i le a sut i wella pethau. Os na fydd perfformiadau llawer gwell yn dod cyn hir, bydd yn anochel ein bod yn cael ein tynnu o'r Uwch Gynghrair.

Fe wnaeth y trafodaethau a ddilynodd dalu ar eu canfed yn amlwg, wrth i ni gael buddugoliaethau campus yn y ddwy gêm gartref nesaf yn erbyn Glyn Ebwy a Chastell Nedd.. Yn y ddwy ornest, fe wnaeth y Porthmyn ddangos ysbryd, hwyl a tipyn o sgil wrth drechugwrthwynebwyr cryf. Yn anffodus, colli'r ddwy gêm gartref nesaf fu'r hanes, a hynny yn erbyn Penybont a Chaerdydd. Mae'n eithaf tebygol mai Penybont yw'r clwb sydd wedi chwarae orau ym Manc yr Eglwys tymor hwn.

Gwaetha'r modd, mae'r gêmiau diweddaraf hyn wedi arwain at nifer o anafiadau i'n garfan ni yn Llanymddyfri. Mae prif sgoriwr ceisiau'r clwb, Eifion Gwynne, allan o'r gêm ar ôl torri ei fys, tra bod ein prif sgoriwr pwyntiau a'n ciciwr Gareth Morgan wedi anafu ei goes. Rydym hefyd wedi colli mewnbnw y canolwr Steve Thomas, yr asgellwr Deian Augustus, y bachwr John Owen a'r cefnwr Justin Lewis i anafiadau amrywiol, ac ar ben hyn mae'r mewnwr Rob Walters wedi cael llawdriniaeth ar ei goluddyn (*appendix*), Jon Mills gyda charfan dan 21 oed Cymru, a'r clwb rhanbarthol wedi galw am wasanaeth Ian Boobyer. Mae adnoddau'r Porthmyn wedi cael eu hymestyn i'r pen y dyddie'ma!

Gyda'r naw chwaraewr hyn yn eisau ar gyfer wynebu clwb Caerdydd, roedd hi'n amlwg yn mynd i fod yn gêm anodd. Ond rhaid rhoi pob chwarae teg i'r sawl a chwaraeodd, oherwydd wedi ildio 21 pwynt cyflym, fe wnaeth y Porthmyn frwydro yn ôl at sgôr o 21 - 13 a rheoli pethau'n llawer gwell ar y cae. Ond, yn dilyn penderfyniad dadleuol ac anghywir gan y dyfarnwr i roi cais gosb i Gaerdydd a charden felen i chwaraewr o glwb Llanymddyfri, sicrhawyd buddugoliaeth i Gaerdydd o 35 - 13. Nid oedd hyn yn adlewyrchiad teg ar y gêm dda roedd y Porthmyn wedi ei chwarae.


Gyda gêmiau pwysig i edrych ymlaen atynt yn y dyfodol agos, mae angen casglu cymaint o bwytiau â phosib er mwyn sicrhau lle yn yr Uwch Gynghrair y tymor nesa. Dewch fechgyn, fe allwch chi ei gwneud hi – ewch amdani!

*gan John Kendrick
(dan ofal Prosiect Papurau Bro)*

D. LLOYD A'T FEIBION

GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA

☎ (01558) 650209 A 650451



SEFYDLWYD 1797

*Masnachwyr coed a nwyddau
adeiladu a ffensio o bob math.
Gwneuthurwyr gataiau pren i
safon "Tir Cymen"*



~ CYDYMDEIMLAD ~

Cydymdeimlir â theuluoedd y canlynol a fu farw'n ddiweddar:

- **Mrs Shelia Jones**, Pant-llech-ddu, Rhandir-mwyn a fu farw'n 58 mlwydd oed yn dilyn cystudd blin. Priod annwyl Handel (cyn-olygydd *Y Lloffwr*) a mam dirion Huw Garan ac Aled Llion. Bu'r angladd yn Amlosgfa Llwydcoed, Aberdâr.
- **Mrs M.E. Mathews**, Bronhaul, Bronwydd. Mam Mrs Rhiannon Lewis, Llwynberllan, Ffarmers. Estynnwn ein cydymdeimladi i Rhiannon a'r teulu, a'r cysylltiadau oll yn eu profedigaeth.

~ GWELLHAD BUAN ~

Dymuniadau da am adferiad iechyd i'r canlynol:

- Mr Elgan Jones, Tremafon, Ffarmers sydd adref wedi bod yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar yn derbyn triniaeth lawfeddygol.
- Mr Albert Williams, Fronhaul, Talyllychau, sydd yn ysbyty Glangwili ar hyn o bryd.
- Mr Rhys Williams, Glanyrafonddu-ganol, Cwm-du a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar. Hyfryd oedd gweld llun Rhys yn y 'Western Mail' hefyd gyda'r erthygl am ysgol Tre-gib.
- Mr Dilwyn Thomas, Cwmbran, Dryslwyn sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.
- Miss Lisa Williams, Headington Villa, Ffairfach sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Singleton, Abertawe.
- Mrs Dilys Griffiths, Crud yr Awel, Ffairfach sydd newydd adael yr ysbyty ar ôl cael penglin newydd yn Rugby, lle mae ei mab, Lyn yn byw.
- Mrs Lindel Thomas, Treetops, Cwrt Henri sydd yn gwella yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Wellington, Llundain.
- Mr Dennis Edwards, y crydd, Llangadog sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.
- Mr Gwilym Jones, Gorwel Deg, Ffairfach sydd yn ymgartrefu yng Nghartref Cilgwyn, Llangadog.

~ CYFARCHION ~

Penblwyddi

- Pen-blwydd hapus i Miss Muriel Frances, Heol Cennen, Ffairfach oedd yn 80 oed yn mis Chwefror
- Llongyfarchiadau i Mr Glyn Jones, Cwmhowell, Llansawel ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar 7 Chwefror.
- Pen-blwydd hapus i Miss Dilys Ellis, Cartref Abbeyfield, Llandeilo oedd yn 90 oed ar 10 Chwefror.
- Llongyfarchiadau i Mrs Glenys Morgan, Heol Newydd, Llandeilo a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 oed ar 21 Chwefror. Iechyd a hapusrwydd i'r dyfodol.
- Dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus yn 80 oed ar 11 Mawrth i Mrs Doris Evans, Heol Myrddin, Ffair-fach.
- Dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus yn 80 oed ar 12 Mawrth i Mrs Beti Davies, 1 Maesawelon, Cwrt Henri. Yn wael ei hiechyd ers blwyddyn bellach boed iddi gael mwy o hwylustod ar fywyd yn y dyfodol.

Dyweddio

- Llongyfarchiadau i Lynwen Thomas, Bryndolau, Ffarmers ar ei dyweddiad â Dafydd Jones. Mae Lynwen yn athrawes yn Ysgol Gyfun Pantycelyn, Llanymddyfri, a Dafydd yn adnabyddus fel chwaraewr rygbi dawnus *Scarlets* Llanelli a Chymru. Gwellhad buan iddo yn dilyn anaf.

Bedydd

- Llongyfarchiadau i Elan Grug merch gyntaf-anedig Maureen a Geraint Williams, Cwm, Pontnyswen ar gael ei bedyddio'n rhan o Eglwys Cwrt Henri ar fore Sul, 20 Chwefror.

PROBLEM RYNGWLADOL AC ATEBION LLEOL

Ymateb yn lleol i'r argyfwng amgylcheddol

Dydy hi erioed wedi bod yn fwy pwysig i ni weithredu dros yr amgylchedd. Does dim angen atgoffa neb o'r ffaith ein bod ni'n dioddef tywydd eithafol o gymharu â'r blynyddoedd a fu. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am hyn yw ein allyriad carbon ni, boed hynny drwy ddefnyddio dulliau cynhesu, allyriant gan geir neu gan ffatrioedd. Un peth sy'n hollol sicr yw fod angen i ni newid cyn fod pethau yn mynd yn rhy hwyr. Yma, yn Sir Gaerfyrddin mae gennym ni dorreth o egni naturiol sy'n barod i gael ei ddefnyddio. Gall Sir Gaerfyrddin fod yn dangos y ffordd i weddill Cymru. O gofio'r ffeithiau moel fod yn rhaid i Brydain ail-osod 60% o'i egni presennol o fewn pum mlynedd ar hugain does dim modd dadlau nad oes angen newid ein ffordd o fyw. Y llynedd cafwyd datganiad gan Brif Wyddonydd y llywodraeth mai ond yr Antartig fydd yn le addas i fyw erbyn diwedd y ganrif. Felly, beth allwn ni wneud i newid hyn yn Sir Gaerfyrddin?

Efallai eich bod wedi clywed am Asiantaeth Ynni Sir Gar sydd wedi ei leoli yn San Clêr. Dyma un o'r asiantaethau pwysicaf yn y Sir. Eu gwaith nhw yw hyrwyddo egni adnewyddadwy. Ymhlith y dulliau o wneud hyn y mae gosod paneli solar i gynhesu gwagle neu i gynhesu dŵr, gosod melinnau gwynt bychain ar dai pobl, biomass, egni hydro dŵr yn ogystal â hydrogen. Pe bai dyn yn gosod melin wynt bychan ar ben tŷ am flwyddyn byddai'n sicrhau cynilo hyd at 0.5 tonnelli o garbon deïocsid y flwyddyn. Dychmygwch pe bai un ar bob tŷ? A hithau'n felin fechan nad yw'n fwy nag antena teledu.

Yr hyn y mae Plaid Cymru yn awyddus iawn i'w weld yw fod unrhyw gynlluniau egni adnewyddadwy o fudd i'r gymuned. O wreiddio'r prosiectau hyn yn ein cymunedau gall unrhyw elw sy'n cael ei wneud gael ei rhoi yn ôl i'r cymunedau. Byddai egni adnewyddadwy felly yn medru cynhyrchu arian i rhedeg cyrsiau a chanolfannau cymunedol.

Yn draddodiadol mae Plaid Cymru yn gefnogol i ddatblygiadau adnewyddol wedi eu lleoli ar dir. Wedi dweud hynny, rydym ni'n awyddus iawn i weld llawer rhagor o ffermydd gwynt ar y môr ac rydym yn teimlo fod y Blaid Lafur yn or-ddibynol ar ffermydd gwynt sydd ar y tir. Amcangyfrif y byddai tair fferm wynt ar y môr yn cynhyrchu yr un faint o egni â thair gorsaf bŵer niwclear.


Pam na ddylai Sir Gâr fod ar y blaen felly? Un ffordd o gefnogi newidiadau a mentrau egni adnewyddadwy fyddai cefnogi asiantaethau megis Asiantaeth Egni Sir Gâr a gwneud ein hun yn hollol agored i'r newidiadau annorod sydd angen i ni wneud yn ein bywydau bob dydd. Mae gan bob un ohonom ni ddyletswydd fel unigolion, cymunedau a phentrefi i weithredu ar y pwnc hwn. Swydd hawdd fyddai gwrthwynebu pob datblygiad adnewyddol. Yr unig bolisi cyfrifol yw wynebu'r her a gwneud ein rhan.

Am ragor o wybodaeth cerwch i wefan Asiantaeth Ynni Sir Gâr, sef www.ynnisirgar.org



Rhodri Glyn Thomas

AC Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



AS Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



Adam Price

AS Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

~ C.F.F.I. SIR GÂR ~

Ar ddiwedd 2004 penodwyd nifer o swyddogion newydd i reoli gweithgareddau Mudiad C.Ff.I. Sir Gâr.

Cadeirydd C.Ff.I. Sir Gâr

Gerwyn Richards, Nythfa, Llangynwr sydd wedi ei ethol yn Gadeirydd C.Ff.I. Sir Gâr am y flwyddyn i ddilyn. Mae Gerwyn yn aelod brwd o C.Ff.I. Llanddarog ac wedi cystadlu mewn nifer o gystadlaethau o fewn y Mudiad. Mae wedi cael llwyddiant yng nghystadleuthau Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg ar lefel Sir ac wedi mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru yn ogystal. Mae Gerwyn hefyd yn hoff o farnu stoc ac mae'n mwynhau cymryd rhan yng nghystadleuthau'r Eisteddfod. Yr Is-gadeirydd newydd yw Miss Llinos Jones, C.Ff.I. Capel Iwan.

Cadeirydd y Pwyllgor Gweithgareddau

Irwel Jones, Aberbranddu, Cwrtycadno. Cafodd Irwel ei addysg yn Ysgol Gynradd Caio ac Ysgol Gyfun Pantycelyn cyn mynd ymlaen i Brifysgol Cymru Aberystwyth i astudio Amaeth. Mae Irwel bellach yn gweithio adref ar y fferm deuluol. Mae'n aelod blaenllaw o Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Cothi ac wedi cystadlu ar lefel Sir a Chenedlaethol yng nghystadleuthau barnu stoc a magu llo. Yn ogystal mae Irwel yn mwynhau cystadlu yn Eisteddfod C.Ff.I lle y mae wedi cystadlu ar lefel Genedlaethol yng nghystadleuthau llenyddol. Mae Irwel hefyd wedi cynrychioli'r Sir a Chymru ar deithiau tramor i Ganada ac Iwerddon.

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Delyth Alcock, Cynwyl Elfed, cyn aelod o C.Ff.I Llanwinio nawr yn aelod yng nghlwb Cynwyl Elfed. Cyn Gadeirydd Gweithgareddau, Cyn Gadeirydd Sir ac un o forwynion y Sir. Mae wedi cystadlu mewn nifer o gystadlaethau gwaith llaw ac wedi cael yr anrhydedd o gystadlu ar lefel Genedlaethol droeon.



MENTER BRO DINEFWR



Cynllun *Cymru a'r Byd*

Fel y nodwyd yn y rhifyn diwethaf o'r *Lloffwr*, bydd y noson nesaf yng nghyfres *Cymru a'r Byd* yn digwydd ar nos Wener, 4 Mawrth yng Ngwesty'r Castell, Llanymddyfri am 8.30pm. Bryd hynny bydd **Elin Pflur** yn ein diddanu ynghyd â **DJ Kader**, ac mae'n argoeli bod yn noson i'w chofio. Mae'r tocynnau'n mynd yn gyflym felly cofiwch archebu ymlaen llaw drwy ffonio swyddfa Menter Bro Dinefwr ar (01558) 825336. Trefnir y gyfres mewn cydweithrediad â Gŵyl y Cenhedloedd Bychain gyda chefnogaeth Tywys a chynllun 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru.

Penodiadau Newydd

Wrth i'r *Lloffwr* fynd i'r wasg, mae'r Fenter wrthi'n penodi tri Swyddog Datblygu newydd, a gobeithiwn y bydd gennym newyddion dai'w gyhoeddi yn y rhifyn nesaf. Prif rôl dau o'r swyddogion newydd fydd gweithio ar gynlluniau adfywio cymunedol a bydd y trydydd yn cynorthwyo gydag ochr gorfforaethol a gweinyddol y gwaith. Edrychwn ymlaen at gael cyhoeddi'r ymgeiswyr llwyddiannus.

MANYLION CYSYLLTU

Menter Bro Dinefwr

Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant

Llandeilo, SA19 6HW

☎ (01558) 825336

☎ (01558) 825339

✉ menter@sirgar.gov.uk

🌐 www.mentrau-iaith.com/dinefwr



CYNLLUN NEWYDD I'R LLOFFWR!

Cyfle i ennill gwobrau ariannol

sylweddol drwy'r Clwb Cefnogwyr

Mae'r papur wrthi'n sefydlu Clwb Cefnogwyr newydd ar hyn o bryd a bydd cyfle i'r aelodau ennill gwobrau ariannol hael ddwy waith y flwyddyn drwy dalu un taliad blynyddol o £5. Bydd lefel y gwobrau yn ddibynol ar faint sydd yn ymaelodi ond bydd hanner yr arian a dderbynnir yn cael ei ddosbarthu a'r hanner arall yn mynd i gefnogi gwaith y *Y Lloffwr*.

Bydd rhagor o wybodaeth yn y rhifyn nesaf ond os hoffech fanylion pellach yn y cyfamser, cysylltwch â Peter Harries ar (01558) 823075

JAMES JONES

PRESWYLFA, NANTGAREDIG

Prif asiant:

PHILIPS

Teledu, Fideo a
Sustemau Hi-Fi

HOTPOINT

Peiriannau golchi a sychu,
Oergelloedd a Rhewgelloedd

RHENTU A GWERTHU SUSTEMAU LLOEREN

☎ (01267) 290573

D. L. WILLIAMS

Iard Pant-yr-Esgair, Talyllychau, Llandeilo

Masnachwr llechi a phob math o goed

Bwyd anifieliad Bibby

☎ (01558) 685217 (dydd) / 685722 (nos)

NATIONAL CO-OPERATIVE CHEMIST
Fferylfa Gymunedol Leol

☎ (01558) 823229

Ystod gynhwysfawr eang o nwyddau a chynnyrch i wneud bywyd yn hawdd ac yn hapusch i'r oedrannus a'r anabl

